



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 6
Gorffennaf 2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 12 GORFFENAF 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL GWLLGOR 1A NEUADD Y SIR, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN I – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN BUDDIANNAU

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 31ain Mai 2012 (copi ynghlwm).

5 CYTUNO CYNLLUN AR Y CYD I DDARPARU GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

Ystyried adroddiad ar y cyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried y gofyniad i gael cynllun a gytunwyd ar gfer darparu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol yn unol â'r ddeddfwriaeth, a'r trefniadau i ddatblygu a chytuno cynllun rhanbarthol i'r diben hwn.

6 PROSES DENDRO A DYFARNU AR GYFER CYLLID RHAGLEN TEULUOEDD YN GYNTAF O EBRILL 2012

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Comisiynu a Gwerthuso (Tîm Partneriaethau a Chymunedau) (copi'n amgaeedig) sy'n amlinellu'r prosesau a ymgwymerwyd i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych a gofyn am farn y Pwyllgor ar y prosesau a'r penderfyniadau a argymhellwyd hyd yma.

7 ADRODDIAD TAITH I WAITH

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Rhanbarthol, Taith i Waith (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a gwneud sylwadau ar gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, amodau a thelerau Cyllid Ewropeaidd a materion cysylltiedig eraill mewn perthynas â'r prosiect rhanbarthol hwn.

8 CYDWEITHREDU RHANBARTHOL AR DDATBLYGU ECONOMAIDD)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Adfywio Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi datblygu strategaeth i wella perfformiad economaidd Gogledd Cymru a sefydlu Bwrdd i oruchwylio cyflawniad y strategaeth.

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Ystyried adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor i'r dyfodol a diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Brian Blakeley
Ann Davies
Meirick Davies
Peter Arnold Evans
Alice Jones

Pat Jones
Margaret McCarroll
Dewi Owens
Merfyn Parry
Bill Tasker

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 31 Mai 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Ann Davies, Meirick Davies, Alice Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Merfyn Parry.
Mynychodd y Cynghorwyr J.R. Bartley a W.L. Cowie fel arsylwyr.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Modernieiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Rheolwr Gwasanaeth: Ansawdd a Datblygu Systemau (CM), Cydlynnydd Archwilio (RE) a'r Swyddog Gweinyddol (CW).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd D. Owens am ei waith yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ystod y flwyddyn diwethaf.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Bill Tasker

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnwyd am CVs/datganiadau gan y rhai â diddordeb yn swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor. Cafwyd un CV felly cyn y cyfarfod ac fe'i cylchredwyd i'r holl aelodau.

Cafodd y Cynghorydd E A Jones ei enwebu a'i eilio ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor. Ni chafwyd dim enwebiadau eraill ac yn y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD – *penodi'r Cynghorydd E.A. Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.*

3 DATGAN BUDDIANT

Ni ddatganodd ddim Aelodau unrhyw fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod.

4 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd dim eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried ar frys yn y cyfarfod yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 19 Ebrill, 2012.

Materion a gododd:-

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Tudalen 1, y Cynllun Mawr – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Owens, cytunodd y Cydlynnydd Craffu i gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran darparu brechiadau HPV i fechgyn.

Tudalen 2, Twristiaeth – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Owens, cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu fod y Gwasanaethau Twristiaeth a Hamdden wedi cael cais i ddarparu i bob cynghorydd fanylion y cynnydd o ran mentrau a gynlluniwyd i annog siopwyr canolfan Tweedmill i ymweld â rhannau eraill o'r Sir. Dywedodd y Cynghorydd W.L. Cowie wrth y Pwyllgor fod llyfryn wedi'i gynhyrchu gan ganolfan Tweedmill a oedd yn cyfeirio at Lanelwy, ac yn arbennig at yr Eglwys Gadeiriol.

Tudalen 2, Cwestiynau Aelodau – Dywedodd y Cynghorydd J.R. Bartley wrth yr Aelodau ei fod wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol am ystadegau a manylion archwiliadau iechyd blynyddol i bobl ag anableddau dysgu. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y byddai'n ceisio cael yr wybodaeth, ac awgrymodd cynnwys y mater hwn ar yr agenda i'r Pwyllgor Craffu nesaf lle bydd cynrychiolwyr Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, derbyn y Cofnodion a chymeradwyo eu bod yn gofnod cywir.

6 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNALIADWY: FFRAMWAITH GWEITHREDU A MESUR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (CYMRU)

Cylchredwyd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod gopi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, a oedd yn disgrifio newid deddfwriaethol a pholisi pwysig a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ac effaith y newid hwn ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol hyd y gellir ei ragweld.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu" (SSSFFA) a Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Roedd yr adroddiad yn gofyn am arweiniad yr Aelodau ar y ffordd y gallai Sir Ddinbych ddymuno mynegi ei barn am yr adroddiad ymgynghori

ar y Mesur, ac am y Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig a oedd am gael ei sefydlu i fynd ymlaen â datblygiadau allweddol yn Sir Ddinbych. Eglurwyd y byddai darparu drwy bartneriaeth yn nodwedd graidd ar y cynigion.

Yn Atodiad 1, crynhowyd cynnwys dogfen bolisi bwysig Llywodraeth Cymru, "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu" a'r cynigion ym Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Gyda'i gilydd, roeddent yn nodi agenda radical i drawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Darparu'r agenda oedd wrth wraidd Contract 2 yn y Compact ar gyfer Newid. Roedd dogfen ymgynghori ar Fesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) wedi'i chyhoeddi gyda dyddiad cau o 1 Mehefin, 2012. Wrth ystyried yr adroddiad hwn yn y cyfarfod cyfredol, cafodd yr aelodau gyfle i gyfrannu at ymateb Llywodraeth Leol i'r ymgynghoriad. Mae briff Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cynigion wedi'i ryddhau fel Dogfen Gefndir.

Roedd llawer o'r cynigion yn "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu" a'r Mesur yn tybio y byddai cynghorau'n darparu gwasanaethau mewn partneriaeth drwy gydweithio'n agos â gwasanaethau eraill yn y Cyngor, y GIG, Cynghorau eraill neu'r sectorau cymunedol, gwirfoddol ac annibynnol. Roedd Atodiad 2 yn nodi strwythurau cyfredol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, yn isranbarthol ac yn rhyngasiantaethol.

Byddai rhai materion yn gofyn am ffocws Sir Ddinbych arbennig pe byddai angen symbyliad arbennig neu pe byddai cyfleoedd arbennig. Cynigiwyd sefydlu Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych, ar draws y Gwasanaethau Plant, Oedolion a Busnes, i oruchwylio'r gwaith hwn. Byddai meysydd gwaith sylweddol yn gyffredin â'r rheini i foderneiddio'r Cyngor yn gyffredinol a dangoswyd hyn yn y Siart a oedd yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Bu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CDM&W) yn darparu cyflwyniad manwl o Atodiad 1, Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol – Y Pecyn, ac roedd y prif bwyntiau'n cynnwys:-

- Heriau
- Egwyddorion Newid y Gêm
- Gwahaniaethau
- Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)
- Cynnal a Gwella Lles Pobl mewn Angen
- Goblygiadau
- Llais Cryfach a Gwir Reolaeth
- Cyfeiriad Cenedlaethol Cryf ac Atebolrwydd Lleol
- Diogelu ac Amddiffyn
- Rheoleiddio ac Arolygu
- Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych

Codwyd y pethau canlynol gan y Cynghorydd J.A. Davies a rhoddwyd ymatebion gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles:-

Tudalennau 18 ac 21 – Symlwydd cael manylion cymorth, a chael at wybodaeth. Cadarnhawyd y byddai angen monitro'r broses o ledaenu gwybodaeth drwy sianeli amrywiol fel y wefan, taflenni a phosteri.

Tudalen 25 – Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles nad oedd unrhyw adnoddau ychwanegol wedi'u darparu o ran gweithredu'r asesiadau "Pobl mewn Angen" lleol.

Tudalen 27 - Eglurwyd bod y tâl mwyaf o £50.00 yr wythnos wedi'i gyflwyno o dan bolisi codi tâl Llywodraeth Cymru o ran gofal cymdeithasol yn y gymuned. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M. McCarroll, bu'r Pennaeth Gwasanaethau Busnes ac Oedolion (HABS) yn amlinellu'r meini prawf a'r weithdrefn a fabwysiadir i asesu'r angen i ddarparu sesiynau ychwanegol.

Tudalen 31 - Hawliau Gofalwyr. Cadarnhaodd y swyddogion mor bwysig oedd darparu help a chymorth i ofalwyr, gan gyfeirio'n arbennig at gyflwyno Mesur newydd Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, bu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles yn amlinellu'r newid sylweddol mewn asesu'r Iaith Gymraeg fel angen gofal ac amlygodd mor bwysig yw bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gan gyfeirio'n arbennig at ddarparwyr y sector annibynnol. Cadarnhaodd y byddai gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno i fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth a chyfeiriwyd at rôl y Tîm Rheoli Contract o ran monitro darparu gwasanaeth.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd D. Owens, ynghylch yr angen i ddarparu cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fodloni gofynion y newidiadau pwysig a sylweddol sy'n cael eu cyflwyno mewn darparu gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd G.M. Kensler, bu'r Pennaeth Gwasanaethau Busnes ac Oedolion yn amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS); yn amlinellu cyflenwi ac adfer cyfarpar i ddefnyddwyr gwasanaeth gan y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, ac yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E.A. Jones am flaengynllunio yn y gwasanaeth o ran newidiadau mewn cymdeithas, amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y gwaith a wnaethpwyd o ran newid demograffig, yr angen i ymyrryd yn gynnar a phwysigrwydd trawsnewid darpariaeth gwasanaethau er mwyn addasu i anghenion y cyhoedd.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch argymhelliad 3.2 o'r adroddiad ac eglurodd y byddai aelodau Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn cynnwys Aelod Arwain oherwydd byddai ganddo bwerau gweithredol. Pwysleisiwyd hefyd y byddai'n bwysig rhoi gwybod o hyd i'r pwyllgor craffu am gynigion a phenderfyniadau'r Bwrdd.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i gwestiwn gan y Cynghorydd M. McCarroll am fodlau menter gymdeithasol. Cadarnhaodd ei fod

newydd ddechrau ar y pryd a chyfeiriodd at Ofal Iechyd Cefndy; er nad oedd yn fenter gymdeithasol, roedd ganddo nifer o nodweddion menter gymdeithasol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J.R. Bartley at bryderon a leisiwyd am asesu ac am ddiagnosis cynnar gyda'r bwriad o ddarparu ymyrraeth gynnar. Eglurodd y byddai teulu'r defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrifol ar hyn o bryd am ddod o hyd i leoliad i'r defnyddiwr gwasanaeth ar ôl ei asesiad 8 wythnos. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes ac Oedolion at y dull ail-alluogi a rôl a defnydd y cyfleusterau canolfan ddydd i gynorthwyo gydag ailsefydlu ac ail-alluogi. Bu swyddogion yn sicrhau Aelodau o'r Pwyllgor y byddai cymorth parhaus yn cael ei ddarparu ac y byddai'r mater yn cael ei fonitro'n agos.

Ar ôl trafodaeth fer:-

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau:-

- (a) yn derbyn yr adroddiad a bod sylwadau'r aelodau am y darpariaethau arfaethedig ym Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn cael eu cynnwys yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y Mesur, ac
- (b) yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych at ddiben mynd ymlaen â datblygiadau allweddol yn Sir Ddinbych.

Yn y man hwn yn y cyfarfod, canodd y larwm tân a gohiriwyd y cyfarfod.

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol:-

Y Cynghorwyr B. Blakeley, E.A. Jones, P.M. Jones, M. McCarroll a T.M. Parry.

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2011/2012

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, a oedd yn cynnwys hunanasesiad o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012/2013, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Oherwydd prinder amser i gynnal gweddill y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw gwestiynau neu sylwadau am Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2011/2012, Atodiad 1, i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2011/2012 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Gorffennaf 2012 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD - cyflwyno cwestiynau a sylwadau'r Aelodau o ran Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2011/2012, Atodiad 1, i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles.

8 NEWIDIADAU RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL YN RHAGLEN CEFNOGI POBL

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Cefnogi Pobl, a oedd yn disgrifio'r newidiadau arfaethedig yn y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau dros dro diwygiedig a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol (PCRh) ar gyfer Gwasanaethau Cefnogi Pobl (CP), Atodiad 1, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am farn yr Aelodau i lywio ymateb Sir Ddinbych i'r ymgynghoriad.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles fod Cefnogi Pobl yn rhaglen sylweddol yn darparu gwasanaethau cymorth "cysylltiedig â thai" i ystod eang o grwpiau o bobl sy'n agored i niwed. Roedd y Rhaglen wedi'i gwerthuso ar lefel genedlaethol a dangoswyd ei bod yn cynnig buddion ariannol cadarnhaol iawn yn ogystal â buddion heblaw rhai ariannol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd adolygiad annibynnol o raglen Cefnogi Pobl wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru (LIC) a derbyniwyd y 25 argymhelliad allweddol a gyflwynwyd. O ganlyniad, sefydlodd LIC Grŵp Llywio traws-sector a nifer o ffrydiau gwaith cenedlaethol i fynd ymlaen â'r gwaith o weithredu'r argymhellion.

Roedd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth wedi penderfynu y dylid sefydlu Pwyllgorau Cydweithio Rhanbarthol (PCRhau) o ddechrau'r trefniadau newydd ac roedd y gofyniad hwn wedi'i ymgorffori wedyn yn y Compact ar gyfer Newid. Codwyd pryderon gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ynglŷn â'r rôl a gynigiwyd i'r PCRhau, y trefniadau llywodraethu a'r posibilrwydd y byddai biwrocratiaeth yn cynyddu.

Roedd manylion y sefyllfa gyfredol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd y model dros dro arfaethedig newydd yn darparu cyfrifoldeb PCRh o dan bedwar maes eang a fyddai'n cynnwys goruchwylio; cynghori Gweinidogion; cynllunio a gweinyddu. Y gwahaniaeth sylweddol ac arwyddocaol oedd y byddai'r PCRh yn gwneud argymhellion ar wariant lleol a rhanbarthol i'r Gweinidog a fyddai wedyn yn gwneud y penderfyniad adnodd.

Roedd y model yn cynnig y byddai'r Gweinidog yn cael ei gynnwys mewn penderfyniadau o ran gwariant lleol a rhanbarthol ar Wasanaethau Cefnogi Pobl, a hawl trosglwyddo arian Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG) rhwng grwpiau defnyddwyr gwasanaeth yn y cynllun CP lleol a rhanbarthol yn y rhanbarth. Roedd y model yn codi pryderon am ei fod fel petai'n mynd yn groes i'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar ôl "Adolygiad Essex". Roedd y cynnig hefyd fel petai'n mynd yn groes i ganfyddiadau'r Adolygiad am drefniadau cyfredol cefnogi pobl a bwysleisiai fod angen lleihau cymhlethdod a biwrocratiaeth ac osgoi'r oedi sy'n cael ei greu gan Weinidogion yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau lleol.

Roedd LIC wedi penderfynu na fyddai Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG) yn cael ei drosglwyddo nes bod y PCRhau wedi'u sefydlu'n iawn, efallai ym mis Awst 2012, a deallwyd bod awgrymiadau i oedi ymhellach tan fis Ebrill 2013 wedi'u gwrthod.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n bwysig darparu gwasanaethau da i bobl sy'n agored i niwed a rheoli gostyngiad mewn adnoddau mewn modd mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys drwy gydweithio. Teimlwyd mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai proses rheoli newid wedi'i hystyried yn ofalus.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, cadarnhawyd y gellid gwneud sylwadau gan Aelodau i Gynulliad Cymru am y mater hwn. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gallai copi o lythyr a anfonwyd gan Brif Weithredwyr Gogledd Cymru at y Gweinidog AC dros Dai, Adfywio a Threftadaeth, yn nodi materion a phryderon Awdurdodau Lleol, gael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau mewn perthynas â chostau darparu gwasanaethau i bobl sydd bellach yn byw yn Sir Ddinbych a oedd yn dod o'r tu allan i'r Sir, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod wedi cysylltu â'r Pennaeth Gwasanaethau Tai am y mater cysylltiedig â symud dros y ffin. Ym mwyafrif yr achosion, byddai costau cartrefu pobl ddigartref o'r tu allan i'r sir a fyddai'n cael eu gosod mewn llety dros dro yn Sir Ddinbych yn cael eu talu gan yr awdurdod 'cartref'.

PENDERFYNWYD –

(a) bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r trefniadau arfaethedig cyfredol;

(b) bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hymgorffori yn ymateb Sir Ddinbych i'r ymgynghoriad, a

(c) bod y Pwyllgor yn gofyn bod copi o'r llythyr a anfonwyd gan Brif Weithredwyr Gogledd Cymru at y Gweinidog AC dros Dai, Adfywio a Threftadaeth yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

9 BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU MWY DIOGEL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (HBPP) (mae copi ynghlwm) a amlinellodd y cynnydd tuag at ffurfio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel ac a gyflwynodd y Cytundeb Partneriaeth diwygiedig i'r Bwrdd, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Yn rhan o Adolygiad Partneriaeth Gogledd Cymru, cytunwyd y byddai Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn cael ei sefydlu erbyn 2012. Byddai'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethu, am gomisiynu rhanbarthol ac am oruchwylio trefniadau cyflenwi gweithredol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a byddai'n dylanwadu ar ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol, a byddai'n cael ei gefnogi gan drefniadau gweithredol isranbarthol a oedd yn cynnwys Ynys Môn/ Gwynedd, Conwy / Sir Ddinbych a Sir y Fflint / Wrecsam. Byddai gwahaniaethau isranbarthol yn cael eu cydnabod a'u parchu gyda grwpiau is-ranbarthol yn cael eu harwain gan y Bwrdd i sicrhau mwy o gysondeb o ran cyflawni safonau perfformiad a chanlyniadau.

Nid oedd y syniad am Gydbwyllgor ffurfiol wedi cael cefnogaeth ar draws cynghorau Gogledd Cymru ac roedd trefniant llai ffurfiol wedi'i gynnig. Roedd Cytundeb Partneriaeth diwygiedig, a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau, wedi'i osod ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad. Roedd prif elfennau'r cytundeb newydd a rôl strategol Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau strategol rhanbarthol a oedd yn perthyn ar y pryd i grwpiau gweithredol eu strategol lleol, wedi'u disgrifio yn yr adroddiad.

Amlinellodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad aelodaeth arfaethedig y Bwrdd a oedd yn cynnwys yr Aelod Etholedig Arweiniol dros Ddiogelwch Cymunedol o bob Awdurdod, cynrychiolwyr o'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf â'r Gwasanaeth Tân. Byddai hefyd grŵp ategol o 'arbenigwyr' gyda phrofiad o Gyfiawnder Ieuenctid a Diogelwch Cymunedol. Darparodd hefyd grynodedb o'r dyraniad adnoddau a chomisiynu, blaenraglen waith a datblygiadau cysylltiedig, yr oeddent oll wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Bu'r aelodau a'r swyddogion yn trafod rôl y Pwyllgor Craffu ac yn ystyried y ffordd y byddai'r trefniadau'n mynd i'r afael â'r anghenion yn lleol yn dilyn y broses ganoli yng Ngogledd Cymru. Amlygodd y Cynghorydd E.A. Jones mor bwysig oedd osgoi risg posibl diffyg democratig a bod angen monitro'n ofalus y meysydd dan sylw i sicrhau bod anghenion yr ardaloedd lleol yn cael eu bodloni.

Amlygodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad arwyddocâd Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o ran eu cynigion ar gyfer Sir Ddinbych. O ran craffu ar bartneriaethau, cyfeiriodd y Cydlynnydd Craffu at gynigion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drefnu gweithdy i'r holl Gadeiryddion Craffu. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad y byddai'r Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd yn cael ei enwebu yn aelod Sir Ddinbych o'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai mater cŵn yn baeddu yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012.

Yn ystod y drafodaeth ganlynol, cefnogodd y Pwyllgor yr argymhellion yn yr adroddiad. Cefnogodd yr Aelodau hefyd gynnig gan y Cynghorydd E.A. Jones i fynd ar drywydd awgrym Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef cynnal gweithdy i gadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu i ddatblygu cyfeiriad ac arweiniad clir o ran craffu ar bartneriaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol, i sicrhau bod diffyg democratig yn cael ei osgoi.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor:-

- (a) yn derbyn ac yn nodi'r Cytundeb Partneriaeth diwygiedig;
- (b) yn cefnogi'r trefniadau diwygiedig fel y'u disgrifir yn y Cytundeb, a
- (c) yn argymhell mynd ar drywydd cynnig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am weithdy i gadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu er mwyn datblygu cyfeiriad ac arweiniad clir o ran craffu ar bartneriaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol.

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei Flaenraglen Waith ddrafft ac a roes wybod y diweddaraf am faterion perthnasol, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad ac eglurodd fod blaenraglen ddrafft y Pwyllgor, Atodiad 1, wedi'i hetifeddu oddi wrth y Pwyllgor a'i rhagflaenodd. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a oedd y Flaenraglen Waith yn adlewyrchu dymuniadau a blaenoriaethau'r Pwyllgor newydd. Cafodd yr Aelodau wybod bod manylion y Flaenraglen Waith i'r Pwyllgorau Craffu Cymunedau a Pherfformiad wedi'u cynnwys yn y papurau gwybodaeth a gylchredwyd yn flaenorol.

Roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori'r Aelodau am y cynnydd tuag at eu gweithredu ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 4.

O dan drefniadau craffu'r Cyngor, roedd Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu (SCVCG) yn cyflawni rôl Pwyllgor cydlynu. Roedd y Grŵp hwn wedi argymhell bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, wrth gydymffurfio â'i swyddogaeth ddynodedig o graffu ar faterion trosedd ac anrhefn o dan ofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, yn gwneud lle yn ei Flaenraglen Waith ar gyfer mis Medi 2012 i eitem am y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP).

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y'u disgrifir yn Atodiad 1, a chyfeiriwyd at y pethau canlynol:-

Parhau cyfarfodydd â chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) – Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd E.A. Jones o ran pwysigrwydd y broses ymgynghori ar faterion Awdurdod Iechyd, eglurodd y Cydlynnydd Craffu y byddai'r Adolygiadau Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried ym mis Gorffennaf 2012.

Cynnydd Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) - mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, eglurodd y Cydlynnydd Craffu y gellid cynnwys yr eitem hon ar yr agenda i'r cyfarfod gyda Phrifysgol Betsi Cadwaladr. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y byddai rhai agweddau ar y mater hwn yn cael eu cynnwys yn yr eitem yn ymwneud â'r Mesur Iechyd Meddwl i'w hystyried ym mis Gorffennaf 2012.

Goleuadau Stryd – Mynegodd yr Aelodau'r farn nad oedd unrhyw broblemau amlwg yn ymwneud â goleuadau stryd ac y dylai'r eitem hon gael ei thynnu allan o'r Flaenraglen Waith.

Ymatebodd y Cydlynnydd Craffu i gwestiynau gan yr Aelodau ynghylch eitemau wedi'u cynnwys yn y Flaenraglen Waith. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Cydlynnydd Craffu drefnu Gweithdy er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor fynd ati i ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor yn fanwl ar gyfer y flwyddyn cyngor 2012/13.

Ceisiwyd enwebiadau am Aelodau Pwyllgor i wasanaethu ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth, a fyddai'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Roedd amserlen i'r cyfarfodydd wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Penodwyd yr Aelodau canlynol i wasanaethu ar y Grwpiau canlynol:-

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig: y Cyng. B. Blakeley
Perfformiad a Chynllunio Busnes: y Cyng. G.M. Kensler
Addysg a Chwsmeriaid a Chymorth Addysg: y Cyng. B. Blakeley
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden: y Cyng. B. Blakeley
Cyllid ac Asedau: y Cyng. G.M. Kensler
Priffyrdd a Seilwaith: y Cyng. T.M. Parry
Adfywio: y Cyng. M. McCarroll

Penodwyd y Cynghorydd E.A. Jones i wasanaethu ar y Grŵp Buddsoddi Strategol a fyddai'n cyfarfod bob mis.

Eglurwyd y byddai angen enwebiadau o blith aelodau'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Grwpiau canlynol:-

Tai a Datblygu Cymunedol
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Gwasanaethau Busnes ac Oedolion
Gwasanaethau Amgylcheddol
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Adnoddau Dynol Strategol

Er mwyn lleddfu'r baich gwaith, cytunodd yr Aelodau i ofyn i'r Cydlynnydd Craffu geisio mynegiannau o ddiddordeb, gan Aelodau nad allent ddod i'r cyfarfod neu rai y bu'n rhaid iddynt adael y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried, i wasanaethu ar y Grwpiau.

Ar gais Aelodau o ardal y Rhyl, cytunodd y Cydlynnydd Craffu i gysylltu â'r Cynghorydd J. Thompson-Hill a'r Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad am bosibilrwydd symud unrhyw rai o'r cyfarfodydd, nad oedd Aelodau Craffu Partneriaethau wedi'u neilltuo iddynt eto, i rywle yn y Rhyl neu Brestatyn.

PENDERFYNWYD

yn amodol ar yr uchod, ac ar wneud trefniadau i gynnal gweithdy ar y flaenraglen waith, bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n cymeradwyo ei flaenraglen waith fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad; a bod yr aelodau a enwyd uchod yn cael eu penodi i gynrychioli'r Pwyllgor ar y grwpiau herio gwasanaeth a'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25 p.m.

Adroddiad i: Y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

Dyddiad y Cyfarfod: 12 Gorffennaf 2012

Aelod Arweiniol Yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant

Awdur yr Adroddiad: Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes
Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Teitl: Cytundeb ar gyfer Cynllun ar y Cyd i Ddarparu
Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1 Cytuno ar gynllun ar y cyd ar gyfer darparu Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol yng ngogledd Cymru fel y mae angen o dan Ran 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am gytundeb y partneriaid i'r cynllun atodedig.

2.2 Mae Rhan 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ceisio cryfhau swyddogaeth gofal sylfaenol mewn darparu gofal a thriniaeth iechyd meddwl effeithiol ac yn gofyn am sefydlu Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol ledled Cymru erbyn mis Hydref 2012. O dan Adran 3, disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau o'r fath mewn partneriaethau a gweithredu'r gwasanaethau hyn yn bennaf mewn, neu ar y cyd, â meddygfeydd teulu presennol.

2.3 Mae Adran 2 y Mesur yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu a chytuno ar gynllun ar y cyd ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Cefnogi fel rhan o'r Mesur erbyn diwedd mis Mai 2012.

2.4 O dan reoliadau Llywodraeth Cymru, cytunwyd y gall y Partneriaid ddarparu cynllun rhanbarthol yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'n ystyried y gofyniad i sefydlu cynllun ar gyfer Rhan 1 y Mesur a hefyd y trefniadau i ddatblygu a chytuno ar y cynllun rhanbarthol sydd wedi'i sefydlu.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cefndir

4.1.1 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 sy'n cyflwyno newidiadau deddfwriaethol o ran asesu a thrin pobl o bob oed gyda phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae effaith y Mesur yn debyg i Ddeddf Seneddol.

4.1.2 Mae'r Mesur yn wahanol i deddfwriaeth iechyd meddwl presennol gan nad yw'n darparu ar gyfer derbyn a thrin pobl drwy orfodaeth. Mae'r Mesur yn ymdrin gyda chael a derbyn gofal a thriniaeth mewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd. Bydd yn berthnasol i bawb sy'n derbyn gofal a thriniaeth gan y gwasanaethau hyn yng Nghymru.

4.1.3 Nid yw'r Mesur yn ymdrin â derbyn â thrin drwy orfodaeth ac ni ellir ei ddefnyddio i fynnu fod person yn derbyn asesiad, triniaeth nac eiriolaeth os nad yw'n dymuno hynny - mae'r rhain yn dal yn faterion o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

4.1.4 Mae'r Mesur yn cynnwys pedwar maes allweddol a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar y Bwrdd Iechyd Lleol ac ar awdurdodau lleol o ran asesu a thrin pobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Y pedwar maes a'u dyddiadau gweithredu yw:-

Rhan 1 – Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (Hydref 2012)

Rhan 2 - Cydlynu cynllunio gofal a thriniaeth (Mehefin 2012)

Rhan 3 – Asesu cyn ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (Mehefin 2012)

Rhan 4 – Eiriolaeth Iechyd Meddwl (Ionawr ac Ebrill 2012)

Mae'r adroddiad hwn ynghylch Rhan 1 y Mesur.

4.1.5 Mae gofyn i bartneriaid lleol, fel rhan o'r Mesur, ddatblygu cynllun ffurfiol ar gyfer Rhan 1, mewn partneriaeth. Mae Adran 2 y Mesur yn dangos bod yn rhaid i bartneriaid lleol iechyd meddwl gymryd pob cam rhesymol i gytuno ar gynllun mewn ardal awdurdod lleol:

- (a) Sy'n nodi'r driniaeth sydd i'w gynnig yn yr ardal (triniaeth iechyd meddwl sylfaenol, leol); ac
- (b) Ar gyfer sicrhau darparu gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl sylfaenol lleol ar gyfer yr ardal honno (fe'u disgrifir yn adran 5)

4.1.6 Mae deddfwriaeth eilaidd fis Mai 2012 yn darparu ar gyfer cynllun dros fyw nag un ardal awdurdod lleol. Yng ngogledd Cymru, mae hynny'n golygu'r chwe sir sydd o fewn ffiniau'r Bwrdd Iechyd.

4.1.7 O gofio am etholiadau'r awdurdodau lleol ac i allu cyfarfod â'r terfynau amser (h.y. cytuno ar y Cynllun erbyn diwedd Mai 2012) mae Cyfarwyddwr y

Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar y cynllun atodedig yn amodol ar gytundeb yr aelodau.

Rhan 4.2 – Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol

4.2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod swyddogaeth hanfodol gofal sylfaenol mewn darparu gofal a thriniaeth iechyd meddwl effeithiol. Nod y Mesur yw cryfhau'r swyddogaeth honno drwy sefydlu Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol ledled Cymru. Bydd y rhain yn cael eu darparu mewn partneriaeth gan y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol a disgwylir y bydd y partneriaethau hynny'n gweithredu o fewn neu ar y cyd â meddygfeydd teulu presennol.

4.2.2 Anelir y gwasanaethau at unigolion o bob oed sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, neu rai sefydlog ond difrifol a pharhaus.

4.2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno model gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol. Mae'n dangos y bydd y Gwasanaethau Cefnogi'n galluogi pobl o bob oedran i gael cymorth yn lleol ar gyfer problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol a rhai iechyd meddwl parhaus, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael trafferthion seicogymdeithasol, trafferthion ymddygiad a thrafferthion emosiynol a phobl hŷn sy'n colli eu cof ac y bydd darparu gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yn gwella'r berthynas rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.

4.2.4 Y bwriad yw darparu ymyrraeth gynnar a lleihau'r risg y bydd anghenion yn cynyddu ac yn rhoi pwysau ar wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

4.2.5 Datblygwyd y model gwasanaeth cenedlaethol yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifanc ond mae wedi'i ddrafftio i fod yr un mor berthnasol i blant a phobl ifanc, oedolion ac oedolion hŷn.

Y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu gan y Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol yw:

- a) Asesiadau iechyd meddwl cynhwysfawr i unigolion sydd wedi cael eu gweld yn gyntaf gan Feddyg Teulu, ac y mae'r Meddyg Teulu o'r farn fod angen asesiad manylach, neu sydd wedi'u cyfeirio trwy wasanaethau iechyd meddwl eilaidd (ble mae'r cynlyn lleol ar y cyd yn darparu ar gyfer unigolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd). Yn ogystal, bod partneriaid lleol wedi cytuno i awdurdodi cyfeiriadau oddi wrth broffesiynolion perthnasol, os yn briodol ac fel y cytunwyd mewn llwybrau rhag torri ar draws y llwybrau presennol, effeithiol, o gael gwasanaethau cyfatebol, gan gydnabod nad oes darpariaeth ar eu cyfer o dan delerau'r Mesur;

Ymyrraeth tymor byr (h.y. triniaeth), naill ai'n unigol neu drwy waith grŵp, os yw'r asesiad cychwynnol yn nodi mai hynny sy'n briodol. Gallai ymyriadau o'r fath gynnwys cwnsela, amrywiaeth o ymyrraeth seicolegol gan gynnwys therapi ymddygiad gwybyddol, therapi'n

canolbwyntio ar ddatrys, gwaith teulu, cefnogaeth ar lein, rheoli stres, bibliotherapi ac addysg;

- c) Cyfeirio ymlaen a chydlynu'r camau nesaf gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, pan mai hynny sy'n briodol i unigolyn;
- d) Darparu cefnogaeth a chynghor i Feddygon Teulu ac i ddarparwyr gofal sylfaenol eraill (megis nyrsys practis) i'w galluogi i reoli a gofalu yn ddiogel am bobl gyda phroblemau iechyd meddwl;
- e) Darparu gwybodaeth a chynghor i unigolion a'u gofaluwr ynghylch ymyrraeth a gofal, gan gynnwys y dewisiadau sydd ar gael yn ogystal â gwybodaeth am ffynonellau eraill o gefnogaeth (megis cefnogaeth a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector) a'u helpu i fanteisio ar y gwasanaethau hyn.

4.3 Cynllun

Mae'r setiau cynllun cychwynnol ynghlwm wedi'u datblygu ar y cyd â swyddogion y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru i gyfarfod â gofynion y Mesur a bydd pob un yn cael ei adolygu a'i ddiwygio rheolaidd yn ôl y gofyn. Mae'n dangos amcanion y Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth, y prosesau cymhwysedd a chyfeirio, y trefniadau llywodraethu a rheoli a'r triniaethau a fydd ar gael.

4.4. Bydd y partneriaid yn adolygu'r cynllun o unwaith y flwyddyn ac yn amlach ar y dechrau.

5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn cefnogi Blaenoriaeth 2, Newid Demograffig; bydd yn darparu mwy o gefnogaeth i bobl o bob oed gyda lefel o anghenion iechyd meddwl sy'n gofyn eu hasesu a chynnig ymyrraeth tymor byr.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth y Bwrdd Iechyd ei bod yn disgwyl y bydd tua £810,000 o arian ychwanegol ar gael ar draws Gogledd Cymru i ddarparu'r Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol. Defnyddir yr arian i recriwtio gweithwyr ychwanegol mewn iechyd meddwl oedolion, i'r gwasanaethau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ac i gomisiynu gwasanaethau ychwanegol o'r trydydd sector sy'n cefnogi'r Gwasanaethau Cefnogi. Bydd y rhain yn ychwanegol at y staff a'r gwasanaethau presennol sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol ar hyn o bryd.

6.2 I grynhoi, bydd y buddsoddiad a ddisgwylir ar gyfer staffio'r gwasanaeth yn cynnwys:

	Gwynedd & Môn	Conwy & Sir Ddinbych	Wrecsam & Flint
Staff Presennol Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc	3.80	4.50	6.60
Staff Clinigol Ychwanegol Arfaethedig	2.50	2.00	2.00
Staff Presennol Iechyd Meddwl Oedolion & Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	6.15	15.84	14.80
Staff Clinigol Ychwanegol Arfaethedig	10.15	3.00	10.00
Staff Clerigol Ychwanegol Arfaethedig	1.00	1.00	1.00

(CAMHS: Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
AMH: Iechyd Meddwl Oedolion
OPMH: Iechyd Meddwl Pobl Hŷn)

Mae'r gofyn am staff ychwanegol yn seiliedig ar gyfartaledd y llwyth achosion perthnasol ar draws yr ardaloedd.

6.3 Mae'n anodd ar hyn o bryd amcangyfrif y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol gan fod y rhain yn ddyletswyddau statudol newydd a does dim profiad ar gael i roi syniad faint fydd yn eu defnyddio. Gwnaed pob ymdrech i ganolbwyntio'r adnoddau ychwanegol ar gael i gyfarfod â'r dyletswyddau newydd. Mae'n bosibl y bydd rhagor o ofyn am wasanaethau awdurdodau lleol e.e. Cyngor ar Fudd-daliadau neu gefnogaeth Tai, yn codi o 4.2.5 (e) uchod h.y. y dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n ofalus ac yn cael ei gynnwys wrth Adolygu'r Cynllun ac yn y prosesau adolygu ac wrth gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch trefniadau cyllid, yn ôl y gofyn.

7. Pa ymgynghori a wnaed?

7.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Mesur yn gyffredinol ac ar elfennau a rheoliadau unigol yn ystod y 12 mis diwethaf.

7.2 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cysylltu â gwahanol grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, sefydliadau'r trydydd sector a chontractwyr gofal sylfaenol a'u staff.

7.3 Bydd uwch reolwyr gofal cymdeithasol â rhan mewn datblygu'r cynllun.

7.4 Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ac i'r Partneriaid gael sicrwydd fod trefniadau cadarn wedi'u sefydlu i sicrhau y cyflwynir darpariaethau'r Mesur yn effeithiol. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect gyda gwahanol aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol, defnyddwyr gwasanaeth a gofaluwr a'r trydydd sector ar gyfer hynny. Mae'r Bwrdd hwn yn adrodd i Is Bwyllgor Deddf Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, sefydlwyd dau grŵp gweithredu prosiect i hyrwyddo cynllunio a gweithredu cydrannau'r mesur yn fanwl, un ar gyfer plant a phobl ifanc a'r llall ar gyfer oedolion. Mae cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector ar y grwpiau hyn hefyd .

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Mesur yn gofyn am ddarparu darpariaeth iechyd meddwl ar y cyd ac mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi arian ychwanegol ar gyfer hyn. Mae'n anodd ar hyn o bryd asesu a fydd costau ychwanegol uniongyrchol neu anuniongyrchol yn wynebu'r cyngor o ganlyniad i weithredu'r gofynion newydd ac felly mae'n rhaid monitro'r effaith i gyflwyno gwybodaeth wrth Adolygu'r Cynllun.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bwriad y Mesur yw ei gwneud yn haws manteisio ar wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol. Er bod rhagdybiaeth y dylai hyn lleihau'r gofyn am wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, mae yna berygl y bydd yn cynyddu'r gofyn wrth i ragor o gleifion / cleientiaid gael eu nodi.

9.2 Bydd y partneriaid yn monitro'r gweithgaredd a'r gofyn yn rheolaidd i asesu effaith y Mesur.

10. Yr Hawl i Benderfynu

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Erthygl 6.3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Swyddogion Cyswllt:

Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes /

Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Ffôn : 01824 706581



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



Atodiad 1

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Cynllun Rhan 1

Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol

ar gyfer

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR GWYNEDD

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

CYNGOR SIR DDINBYCH

CYNGOR SIR Y FFLINT

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Partneriaid	4
3. Diben y Cynllun	5
4. Gweledigaeth	6
5. Cyfrifoldebau Partneriaid	6
6. Cymhwyster ar gyfer Cyfeirio ac Asesu	7
7. Cydraddoldeb	9
8. Darpariaeth Gwasanaethau yng Nghymraeg a Saesneg	9
9. Lle bydd Gwasanaethau yn cael eu Darparu	9
10. Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol	9
11. Llywodraethu a Threfniadau Partneriaeth	10
12. Trefniadau Rheoli ar gyfer Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol Gwasanaethau Cefnogi	11
13. Cyllid	11
14. Rheoli Perfformiad	11
15. Llywodraethu'r Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol	12
16. Rhyddid Gwybodaeth	12
17. Diogelu Data	13
18. Rhannu Gwybodaeth	13
19. Pryderon	13
20. Hybu'r Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol	13
21. Trefniadau ar gyfer Adolygu'r Cynllun	14
Atodiad 1 Rhestr o Driniaethau Iechyd Meddwl Cychwynnol	17

1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar Gynllun Rhanbarthol ar y cyd sy'n pennu sut bydd y partneriaid statudol yn bodloni gofynion Section 2, Part 1 of the Measure, yn ffurfiol sef datblygu a gweithredu Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol (LPMHSS). Nid yw'n gynllun gweithredol. Fodd bynnag, mae'n nodi'r gofal a'r driniaeth sydd ar gael ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn sicrhau darpariaeth ar gyfer yr ardal honno hwnnw o'r gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl cychwynnol lleol.

Mae Rhan 1 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn gofyn i bartneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i gytuno ar gynllun sy'n nodi'r driniaeth a fydd ar gael ar gyfer yr ardal honno a sicrhau darpariaeth gwasanaethau ar gyfer yr ardal honno.

Mae Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012 yn galluogi llunio cynlluniau yn Rhanbarthol.

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn gyfraith a wnaethpwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ganddi statws cyfreithiol tebyg i Ddeddf Seneddol. Mae'r Mesur yn cyflwyno nifer o newidiadau pwysig mewn perthynas ag asesu, gofalu, a thrin pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru.

Mae'r Mesur wedi'i rannu yn chwe Rhan a dwy Atodlen:

- Rhan 1 – Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol
- Rhan 2 – Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth ar gyfer Defnyddwyr Iechyd Meddwl Eilaidd
- Rhan 3 - Asesu Cyn-ddefnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd
- Rhan 4 - Eiriolaeth Iechyd Meddwl
- Rhan 5 - Cyffredinol
- Rhan 6 – Amrywiol ac atodol
- Atodlen 1 - Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Atodlen 2 - Diddymiadau

Mae Rhan 1 y Mesur – Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol, yn ceisio cryfhau rôl gofal cychwynnol wrth ddarparu gofal a thriniaeth iechyd meddwl effeithiol, ac yn manylu ar y gofyniad y bydd LPMHSS yn cael eu darparu ledled Cymru.

Daw'r dyletswyddau statudol ar BILLau ac Awdurdodau Lleol i ddarparu'r gwasanaethau hyn i rym o 1af Hydref 2012. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol mewn partneriaeth, a disgwylir y bydd y gwasanaethau hyn yn gweithredu naill ai o fewn practisau meddyg teulu sydd eisoes yn bodoli, ynteu ochr wrth ochr â hwy.

Diffinnir 5 swyddogaeth allweddol LPMHSS yn Adran 5 y Mesur fel a ganlyn:

- i. Asesiadau iechyd meddwl cynhwysfawr
- ii. Triniaethau iechyd meddwl cychwynnol lleol
- iii. Cydgysylltu a chefnogi cyfeirio ymlaen
- iv. Darparu cefnogaeth a chyngor i weithwyr proffesiynol
- v. Darparu gwybodaeth a chyngor i unigolion a gofalwyr

Fel disgrifiwyd yn y Model Gwasanaeth Cenedlaethol, amcanion LPMHSS yw:

- Cynyddu argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl ar lefel gofal cychwynnol, a'r nifer sy'n eu defnyddio, er mwyn gwella deilliannau ar gyfer unigolion o bob oed a chynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth gyrchu gofal eilaidd, lle cynghorir bod angen hyn;
- Darparu ar gyfer pobl o bob oed ar draws ardal Gogledd Cymru, h.y. Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam; LPMHSS effeithiol sy'n hygyrch ac yn agos at y bobl sydd eu hangen. Dylai'r gwasanaethau hyn fod yn briodol, yn dderbyniol ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau, â phwyslais ar hybu lles, adferiad a gwydnwch unigolyn, mewn partneriaeth â'r trydydd sector;
- Gweithio gyda meddygon teulu, staff practisau a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill perthnasol, a datblygu perthnasau agos â hwy, a darparu cefnogaeth, ymgynghori, cyngor am reolaeth glinigol, addysg, hyfforddiant a chyswllt er mwyn datblygu gallu o ran rheoli problemau iechyd meddwl mewn gofal cychwynnol, a dulliau o ymdrin â hyn.

Yn ardal Gogledd Cymru bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:

Atal dirywiad a hybu gwellhad a lles trwy:

- Ddarparu cefnogaeth, ymgynghori, cyngor ar reolaeth glinigol, addysg, hyfforddiant a chyswllt;
- Cynyddu'r gallu ar lefel gofal cychwynnol ar gyfer asesiad priodol, ymyriadau byr a dargedwyd, cyfeirio ymlaen, cyngor a gwybodaeth ar gyfer pobl o unrhyw oed ag unrhyw ffurf o broblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Bydd hyn yn cynnwys anawsterau seicogymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol bydd plant a phobl ifanc yn eu profi, a nam ar y cof bydd oedolion hŷn yn ei brofi;
- Darparu mynediad ehangach at therapïau seicolegol effeithiol;
- Hybu hawliau unigolion i gyrchu'r gwasanaethau hyn yng Nghymraeg;
- Darparu mynediad ehangach at amrywiaeth gwasanaethau lles meddyliol sydd ar gael, ar lefel gofal cychwynnol/cyffredinol sy'n cael eu darparu mewn ieithoedd (ar wahân i Gymraeg neu Saesneg) yn unol ag anghenion y boblogaeth leol;
- Sicrhau ymyriad i hybu diagnosis cynnar a chywir, a gofal dilynol priodol ac amserol, i wella lles emosiynol a deilliannau iechyd meddwl, lleihau'r risg y bydd cyflwr unigolyn yn gwaethygu a, lle bo'n briodol, helpu unigolion i gynnal cyflogaeth ac addysg trwy ddangos y ffordd i wasanaethau priodol;

- Cynnwys unigolion, a'u gofawyr lle bo hynny'n briodol, yng ngofal a thriniaeth yr unigolyn a'u cefnogi a'u hannog i reoli eu hiechyd meddwl a chorfforol eu hunain;
- Presgripsiynu priodol ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl ar lefel gofal cychwynnol, gwell rheoli meddyginiaeth ac annog cydymffurfiaid â meddyginiaeth sy'n cael ei rhoi ar bresgripsiwn;
- Presgripsiynu heb fod yn feddygol e.e. bibliotherapi, ymarfer corff
- Cynorthwyo Gofal Cychwynnol wrth hybu anghenion gofal iechyd corfforol y rheiny sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl ar lefel gofal cychwynnol, a mynd i'r afael â'r anghenion hyn;
- Cynyddu cyflymder a phriodoldeb cyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl gofal eilaidd trwy brosesau cyfeirio syml a chyfathrebu effeithiol, gan sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi ar y lefel gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion;
- Datblygu a chynnal rhyngwynebau effeithiol â gwasanaethau perthnasol ym mhob sector i gefnogi unigolion â'u hanghenion iechyd cymdeithasol a chorfforol a bod er budd eu hiechyd meddyliol;
- Lleihau gwahaniaethu a gwella ymwybyddiaeth gymunedol trwy gael mwy o ymwybyddiaeth leol a mynediad lleol; a
- Sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd.

Mewn cysylltiad â'r cynllun mae Fframwaith Gweithredol yn cael ei ddatblygu. Bydd y Fframwaith Gweithredol yn darparu mwy o gyfarwyddyd a manylion gweithrediadol o ran sut bydd y cynllun a'i modelau gwasanaeth cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith.

2. PARTNERIAID

Mae'r Cynllun yn cwmpasu ardal Gogledd Cymru a dyma'r partneriaid statudol:

- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Sy'n darparu'r gwasanaeth mewn partneriaeth heb fod yn statudol â'r canlynol:

- Meddygon Teulu a staff practis Meddygon Teulu
- Trydydd Sector
- Defnyddiwr y Gwasanaeth
- Teuluoedd a Gofawyr
- Sector Annibynnol
- System Cyfiawnder Troseddol

3. DIBEN/CWMPAS Y CYNLLUN

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r partneriaid iechyd meddwl lleol sydd â chyfrifoldeb dan y mesur am ddarparu LPMHSS i boblogaethau'r awdurdodau lleol y mae BIPBC yn eu cwmpasu. Mae'n nodi'r triniaethau iechyd meddwl cychwynnol lleol a fydd ar gael ac yn manylu ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darpariaeth y gwasanaethau hynny. Mae'n nodi maint cyfrifoldebau pob un o'r partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer darpariaeth y gwasanaethau hyn ac yn manylu ar sut bydd cyfeiriadau gan ofal eilaidd yn cael eu derbyn dan y cynllun.

Mae LPMHSS yn darparu mynediad lleol i gefnogi pobl o bob oed sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Mae hyn yn cynnwys anawsterau seicogymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol bydd plant a phobl ifanc yn eu profi, ynghyd â nam ar y cof bydd oedolion hŷn yn ei profi.

Mae prif ffocws yr ymateb iechyd meddwl cychwynnol yn ymwneud â hybu, atal, ymyrraeth gynnar a dulliau o ymdrin â chael gwared ar stigma materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Mae'r gwasanaeth yn cyfoethogi a gwella perthnasau rhwng gofal iechyd cychwynnol ac eilaidd heb greu dyblygiad. Ymhlith y gwasanaethau iechyd meddwl cychwynnol penodol sy'n cael eu darparu mae:

- Aseidiadau iechyd meddwl cynhwysfawr, addas ar gyfer pwrpas, ar gyfer unigolyn sydd, fel arfer, wedi cael eu gweld gan feddyg teulu yn gyntaf, ac mae meddyg teulu yn ystyried bod angen asesiad mwy manwl, neu sy'n cael eu cyfeirio trwy wasanaethau iechyd meddwl eilaidd;
- Ymyriadau tymor byr naill ai'n unigol neu drwy waith grŵp, os yw'r asesiad cychwynnol wedi nodi bod hyn yn briodol. Ymhlith ymyriadau o'r fath mae cynghori, amrywiaeth o ymyriadau seicolegol byr gan gynnwys therapi ymddygiad gwybyddol, therapi yn canolbwyntio ar atebion, cefnogaeth arlein, rheoli straen, bibliotherapi ac addysg;
- Cyfeirio ymlaen â chefnogaeth a chydgyssylltu camau nesaf mewn proses gofal â chymau, lle teimlir bod hyn yn briodol ar gyfer unigolyn;
- Ar gyfer Gwasanaethau i Blant, darparu cefnogaeth, ymgynghori, cyngor am reolaeth glinigol, addysg, hyfforddiant a chyswllt ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, i alluogi iddynt reoli a gofalu am bobl â phroblemau iechyd meddwl yn ddiogel;
- Darparu cefnogaeth, hyfforddiant a chyngor i feddygon teulu a staff cysylltiedig, i alluogi iddynt reoli a gofalu am bobl â phroblemau iechyd meddwl yn ddiogel, gan hybu dull adferiad o weithredu ac agwedd positif tuag at iechyd meddwl llesol;
- Darparu gwybodaeth a chyngor i unigolion a'u gofalwyr am ymyriadau a gofal, gan gynnwys yr opsiynau sydd ar gael iddynt, yn ogystal â 'dangos y ffordd' i ffynonellau eraill o gefnogaeth a'u helpu i gael mynediad at y gwasanaethau hyn.

4. GWELEDIGAETH

Mae'r Model Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer LPMHSS (2011) yn manylu ar amcanion cyffredinol LPMHSS sef:

- a) Cynyddu argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl ar lefel gofal cychwynnol, a nifer y bobl sy'n eu defnyddio
- b) Darparu ar gyfer pobl o bob oed ar draws Cymru, gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl cychwynnol sy'n hygyrch ac yn agos at y bobl sydd eu hangen.
- c) Gweithio gyda meddygon teulu a staff practisau a datblygu perthnasau agos â hwy.

Yng Ngogledd Cymru, ein gweledigaeth ar gyfer LPMHSS yw:

- Darparu gwasanaethau ymatebol a hyblyg sy'n rhoi'r unigolyn wrth galon y gwasanaeth sy'n galluogi pobl i wella a chael ansawdd bywyd da sy'n cefnogi dewis.
- Mae unigolion, eu gofaluwr a theuluoedd yn cymryd rhan lawn yng nghanol gofal a thriniaeth.
- Ar gyfer plant a phobl ifanc, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganfod risg yn gynnar, datblygu gwydnwch a datblygu sgiliau bywyd.
- Ar gyfer pobl oedran gweithio, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn byw bywydau mor llawn ac annibynnol â phosibl.
- Ar gyfer pobl hŷn, ceir pwyslais arbennig ar atal ac ailalluogi.

Mae cyfathrebu clir o ran iaith a diwylliant yn hanfodol i sicrhau bod cleifion a gofaluwr yn cymryd rhan go iawn, ac yn cael y gofal a thriniaeth orau bosibl. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu bod gwasanaethau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gael lle bynnag bo'n bosibl.

5. CYFRIFOLDEBAU PARTNERIAID

Mae Rhan 1, adran 3 y Mesur yn nodi bod yn rhaid i bartneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal leol ddarparu gwasanaethau cefnogaeth iechyd meddwl yn unol â chynllun ar gyfer eu hardal y cytunwyd arni.

Y Bwrdd Iechyd yw prif asiantaeth y cynllun a bydd pob un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid yn cynnal cyfrifoldeb cyflogaeth ar gyfer yr aelodau hynny o staff sy'n darparu LPMHSS naill ai fel gweithwyr LPMHSS uniongyrchol (BIPBC, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) neu fel aelod o staff iechyd meddwl cyffredinol yn y siroedd eraill.

Ar gyfer Gogledd Cymru mae'r partneriaid iechyd meddwl wedi ymrwymo i fodloni gofynion Rhan I y Mesur mewn partneriaeth a chytunir y bydd unrhyw

fuddsoddiad newydd gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi'r gwasanaethau LPMHSS sydd eisoes yn bodoli ac sydd ar waith ar draws Gogledd Cymru.

Bydd Meddygon Teulu yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i gleifion fel manylwyd yn y contract gwasanaethau meddyg teulu. Bydd y LPMHSS yn gwella'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion mewn gofal cychwynnol.

Mae ymarferwyr iechyd meddwl gofal cychwynnol yn gyfrifol am ddarparu:

- Asesiad (o fewn 28 diwrnod calendr)
- Triniaeth (yn unigol neu drwy waith grŵp ac fel arfer mewn 6-10 sesiwn,)
- Dangos y ffordd
- Addysg a hyfforddiant i staff gofal cychwynnol, a
- Chyngor a chefnogaeth ar gyfer unigolion, gofalwyr a theuluoedd

6. CYMHWYSTER AR GYFER CYFEIRIO AC ASESU

Mae LPMHSS ar gael ar gyfer unigolion o bob oed; o blant a phobl ifanc i oedolion hŷn sydd wedi cael eu cyfeirio gan feddyg teulu neu, fel mae'r cynllun hwn yn caniatáu, o ofal eilaidd, ar gyfer asesiad cychwynnol.

Mae Adrannau 6 -8 y Mesur yn manylu ar y dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl cychwynnol mewn perthynas â'r tri chategori o gyfeiriadau a allai gael eu gwneud i'r gwasanaeth

- Cleifion sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol ac wedi cofrestru â'r meddyg teulu (practis) sy'n ei gyfeirio/chyfeirio (a6)
- Cleifion nad ydynt yn byw yn ardal yr awdurdod lleol / heb gyfeiriad arferol / heb gofrestru â'r meddyg teulu – (a7) ac mae'r rhain bellach wedi'u cwmpasu gan Reoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Cychwynnol) (Cymru) 2012 neu fel arall ni fyddai gan gategoriâu penodol o unigolion hawl i gael asesiad, os yw'r cynllun yn darparu ar gyfer hynny – (yn cyfeirio at a2 (4) (b) a (c) ac yna mae a7 yn berthnasol)
- Cyfeiriadau gan ofal eilaidd os yw'r cynllun yn caniatáu (yn cyfeirio at a4 ac yna mae a8 yn berthnasol)

Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i gyfeiriadau cael eu gwneud gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i'r gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl cychwynnol lleol ond nid yw'n darparu ar gyfer cyfeiriadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas ag unrhyw gategoriâu penodol o unigolion, oherwydd bod y rhain bellach yn cael eu cwmpasu gan Reoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Cychwynnol) (Cymru) 2012. Mewn perthynas â chyfeiriadau o ofal eilaidd, mae'r cynllun hwn yn darparu y gall rheolwr ymgynghorol sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd eilaidd wneud cyfeiriad i'r LPMHSS mewn perthynas ag unigolyn sy'n destun i ddarpariaeth Deddf Iechyd Meddwl 1983, neu sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd eilaidd.

Hefyd mae'r partneriaid iechyd meddwl yn cefnogi hawl barhaus galwedigaethau perthynol i gyfeirio i'r LPMHSS lle bo hynny'n briodol ac fel y cytunwyd mewn llwybrau lleol er mwyn peidio a thorri llwybrau effeithiol sydd eisoes yn bodoli at wasanaethau cyfwerth, gan gydnabod nad yw termau'r Mesur yn darparu ar eu cyfer.

Dylid gwneud cyfeiriadau mewn perthynas ag unigolion (o unrhyw oed) sy'n ymgwyflwyno ag unrhyw ffurf o broblem iechyd meddwl ysgafn i gymedrol a/neu sefydlog, difrifol a pharhaus yn unig, heb ystyried p'un a yw'r unigolyn hwnnw/honno hefyd yn profi unrhyw gyflwr sy'n cyd-ddigwydd fel anabledd dysgu neu broblem â chamddefnyddio sylwedd. Gall unigolyn sy'n destun i adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983 gael ei gyfeirio/chyfeirio i'r gwasanaeth, cyn belled â'i fod/bod yn gymwys trwy un o'r llwybrau cyfeirio manylwyd arnynt uchod, a'i bod yn briodol gwneud hynny o ystyried ei (h)ymgyflwyniad clinigol.

Bydd cyfeiriad ar ffurf cais gan feddyg teulu (neu weithiwr proffesiynol perthynol eraill y cytunwyd arno/arni) i'r LPMHSS weld rhywun yn y feddygfa lle bo hynny'n bosibl, neu fel arall yn yr ardal leol, a dyluniwyd y system gyfeirio i beidio â bod yn rhy gymhleth. Mae trefniadau cadw cofnodion priodol, ynghyd â dull sicr o rannu gwybodaeth, ar waith.

Safon BIPBC ar gyfer yr hyd uchafswm o amser rhwng LPMHSS yn derbyn cyfeiriad a chynnal yr asesiad yw 28 diwrnod calendr, yn unol â'r targed a osodwyd yn y Model Gwasanaeth Cenedlaethol.

Mae Fframweithiau Gweithredol wedi cael eu datblygu (oedolion a phlant) sy'n cynnwys Protocolau Clinigol ar gyfer cyfeirio ar gyfer asesiad a bydd y rhain yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn o leiaf i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion lleol, a bod sgiliau staff y LPMHSS yn cael eu defnyddio yn briodol.

Ni fydd LPMHSS Gogledd Cymru yn briodol i bob unigolyn â phroblemau iechyd meddwl sy'n ymgwyflwyno i feddyg teulu. Pan fydd meddyg teulu yn ystyried y byddai gwasanaethau eraill yn y system gofal iechyd meddwl yn briodol i ddiwallu anghenion unigolyn, dylai'r meddyg teulu barhau i'w gyfeirio/chyfeirio i'r gwasanaethau lleol hyn (e.e. Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, GIMPPI arbenigol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac ati). Efallai y bydd y meddyg teulu yn dymuno cael ei dywys/thywys a'i gefnogi/chefnogi mewn perthynas a chyfeirio unigolion yn briodol trwy ymgynghori â'r LPMHSS a/neu gael cyngor ganddynt. Y nod yw hwyluso pob cais newydd am wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc trwy un pwynt mynediad a seiliwyd ar drafod pryderon a ymgwyflwynwyd.

Mae'r Fframweithiau Gweithredol yn cynnwys y broses gyfeirio y cytunwyd arni gan gynnwys materion sy'n ymwneud â ffiniau a dogfennaeth gysylltiedig.

7. CYDRADDOLDEB

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymestyn dyletswydd y sector cyhoeddus o ran pob nodwedd warchoddedig, sy'n cael eu diffinio fel oed, anabledd, rhyw, crefydd a chred, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol a phriodas/partneriaeth sifil.

Mae pob sefydliad sy'n bartner wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol (SEP) sy'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhan hanfodol o bopeth byddant yn ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n gyson â'r ddyletswydd sy'n gofyn i ni:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- hybu cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

Bydd y Partneriaid yn ymgymryd ag Asesiad Llawn o Effaith ar Gydraddoldeb o ran y cynllun erbyn 30^{ain} Medi 2012 a chyhoeddi'r deilliant.

8. DARPARIAETH GWASANAETHAU YNG NGHYMRAEG A SAESNEG

Mae Strategaeth y Gymraeg 2012-17, 'Iaith Byw: Iaith Fyw' yn gosod nod clir i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd.

Mae Mesur y Gymraeg yn gorfodi dyletswyddau ar sefydliadau i: ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg; ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg; hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle; hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang; cadw cofnodion o gydymffurfriad â safonau a chwynion.

Lle bynnag bo'n bosibl, bydd LPMHSS yn cael eu darparu yn yr iaith y mae defnyddwyr y gwasanaeth ei hangen, a lle bo hyn yn anodd i wasanaethau lleol, byddant yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr angen iaith yn cael ei ddiwallu. Bydd gofyniad defnyddiwr y gwasanaeth o ran iaith yn cael ei gofnodi.

9. LLE BYDD GWASANAETHAU YN CAEL EU DARPARU

Mae'r LPMHSS yn arbenigedd yn y gymuned ac maent yn gweithredu o fewn, neu ochr wrth ochr â, meddygfeydd teulu sydd eisoes yn bodoli, neu leoliadau eraill fel y pennwyd yn briodol.

10. GWASANAETHAU CEFNOGI IECHYD MEDDWL CYCHWYNNOL LLEOL

Manylir ar restr o driniaethau a gwasanaethau iechyd meddwl cychwynnol a sicrhawyd gan y cynllun yn atodiad 1

Mae ymyriadau yn canolbwyntio ar adfer, â deilliannau disgwylidig clir a ddogfennwyd, ac mae dulliau o weithredu a seiliwyd ar dystiolaeth wrth eu gwraidd ac yn sicrhau eu hansawdd. Maent wedi seilio ar asesiad trylwyr o bob unigolyn ac yn cael eu darparu gan staff â'r sgiliau a hyfforddiant addas sy'n cael eu goruchwyllo a'u rheoli yn briodol. Lle bynnag bo'n bosibl, bydd yr ymyriadau y cytunwyd arnynt yn cefnogi unigolion i reoli eu hunain, hybu iechyd ac atal dirywiad.

Bydd cynlluniau gofal sy'n gymesur ag angen yn cael eu datblygu ar gyfer unigolion sy'n cael eu trin yn y gwasanaeth. Fel arfer ni fydd gofal pobl sy'n cael eu gweld yn y LPMHSS dan y gwasanaethau a restrwyd yn Atodiad 1 yn destun i gynllunio gofal a thriniaeth, ond efallai y bydd rhai unigolion y mae eu gofal eisoes yn destun i gynllunio gofal a thriniaeth hefyd yn cael eu gweld yn y LPMHSS. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd eu cydgysylltiad gofal a'u cynllun gofal a thriniaeth yn parhau mewn gofal eilaidd.

Ar hyn o bryd mae gwahanol drefniadau'n bodoli ar gyfer cadw cofnodion ond bydd y LPMHSS yn symud tuag at gofnodion a ddelir mewn gofal cychwynnol o fewn fframweithiau llywodraethu priodol.

Bydd rhyddhad o'r LPMHSS yn digwydd ar yr adeg pan nad oes angen unrhyw ymyriad pellach. Efallai y bydd hyn oherwydd:

- Cwblhau'r driniaeth yn llwyddiannus
- Dangos y ffordd i wasanaethau eraill
- Cyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd
- Nid yw defnyddiwr y gwasanaeth yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth bellach

Mae LPMHSS yn treulio oddeutu 10% o'u hamser yn cefnogi ymarferwyr gofal cychwynnol i ddatblygu gallu o ran iechyd meddwl. Hefyd, bydd amser yn cael ei dreulio yn cefnogi ymarferwyr o asiantaethau eraill perthnasol i ddatblygu sgiliau a gallu wrth adnabod a (lle bo'n briodol) darparu cefnogaeth yn y gymuned i hybu iechyd meddwl a lles a gwella sgiliau ymdopi e.e. staff o Addysg neu Wasanaethau Cymdeithasol.

11. LLYWODRAETHU A THREFNIADAU PARTNERIAETH

Mae atebolrwydd a chyfrifoldeb am y cynllun yn perthyn i'r sefydliadau unigol sy'n bartneriaid, ond y Bwrdd Iechyd yw prif asiantaeth y LPMHSS.

Bydd Cydweithredfa Iechyd Meddwl ar gyfer oedolion, teuluoedd a phlant (yn cynnwys cyswllt gan addysg) yn cael ei sefydlu gan y Partneriaid, ac yn cael ei gweinydd i ddechrau gan y Bwrdd Iechyd, i oruchwyllo gweithrediad y cynllun a rhannau eraill y Mesur Iechyd Meddwl. Bydd Cylch Gorchwyl manwl yn cael eu datblygu. Bydd y Gydweithredfa Iechyd Meddwl yn adrodd i Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol y Gogledd (NWSSIC) a Fforwm Strategol Chwarterol BIPBC, a fydd yn sicrhau adrodd ymlaen i drefniadau llywodraethu priodol yn y sefydliadau sy'n bartneriaid. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau cyfnodol i Fwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer goruchwyliaeth gyfunol a democratig gan arweinwyr.

Bydd Cydweithredfa Iechyd Meddwl Gogledd Cymru yn monitro'r adnoddau sy'n gysylltiedig â LPMHSS ac yn gyntaf bydd yn ystyried unrhyw anghytundeb o ran cyllid ac yn ceisio eu datrys.

12. TREFNIADAU RHEOLI AR GYFER IECHYD MEDDWL CYCHWYNNOL LLEOL

Ar gyfer gwasanaethau oedolion, mae LPMHSS yn cael eu rheoli ar y cyd gan y partneriaid ac mae pob sefydliad yn atebol ar gyfer ei staff ei hun.

Ar gyfer plant a theuluoedd bydd y ddarpariaeth LPMHSS yn cael ei rheoli trwy drefniadau GIMPPi BIPBC ar wahân i'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu yn uniongyrchol gan y trydydd sector.

13. CYLLID

Y cyllid mynegol ychwanegol a hysbyswyd i BIPBC, oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn darparu gwasanaethau mewn perthynas â Rhan 1 y mesur yw £810,000, ond cyllid rhannol sydd ar gael ar gyfer Blwyddyn 1 (2012/2013) yn unig. Bydd y cyllid hwn yn cyflenwi buddsoddiad sydd eisoes yn bodoli a bydd yn cael ei ddefnyddio i gyflogi gweithwyr iechyd meddwl cychwynnol ychwanegol a chomisiynu gwasanaethau perthynol ychwanegol gan y trydydd sector.

Mae Adran 41(1) y mesur yn caniatáu i'r Partneriaid sefydlu a chynnal cronfa gyfunol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwriad i gyfuno cyllid yn ffurfiol.

Mae'r Partneriaid wedi ymrwymo i ymgymryd â phroses helaeth o fapio adnoddau i nodi buddsoddiad sydd eisoes yn bodoli a buddsoddiad newydd mewn LPMHSS

Bydd adolygiad o wasanaethau trydydd sector a gomisiynwyd yn cael ei gynnal, ar wahân i'r Mesur, i leihau unrhyw ddyblygu a manteisio i'r eithaf ar botensial buddsoddi.

Yn ogystal â'r dyraniad gan Lywodraeth Cymru, bydd y sefydliadau sy'n bartneriaid yn ystyried adnoddau sydd eisoes yn bodoli ac yn nodi lle gellir ailddyrranu adnoddau neu eu rhannu â LPMHSS.

Bydd trefniadau cyllido a rhannu gwybodaeth, adnoddau, llety, staff ac adrodd yn cael ei reoli trwy Gydweithredfa Iechyd Meddwl Gogledd Cymru

14. RHEOLI PERFFORMIAD

Bydd trefniadau rheoli perfformiad cadarn yn cael eu datblygu i fonitro effaith y gwasanaethau. Fel isafswm, bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei chasglu ac adroddir arni i'r Gydweithredfa, er mwyn datblygu mesurau deilliant mwy soffistigedig.

- Nifer yr ymarferwyr gofal cychwynnol fesul 20,000 o boblogaeth (pob oed)
- Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd
- Amseroedd aros ar gyfer asesiad (dyddiau calendr) yn erbyn y targed o 28 diwrnod calendr
- Amseroedd aros ar gyfer ymyriadau, lle dynodwyd (dyddiau calendr)
- Nifer yr ymyriadau a gwblhawyd (yn cynnwys triniaeth, cyfeiriad neu wybodaeth)
- Lefelau boddhad y defnyddiwr, gofalwr a meddyg teulu
- Galw am wasanaeth trwy'r Gymraeg a darpariaeth hyn

Bydd gofynion ar gyfer adrodd yn erbyn y mesurau perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, bydd y gwasanaeth yn cynnal archwiliadau lleol rheolaidd yn erbyn safonau mewn perthynas â mynediad, deilliannau, priodoldeb a derbynoldeb pum swyddogaeth y gwasanaeth. Bydd hyn yn cefnogi gwelliannau o ran ymarfer ac yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid o ran darpariaeth gwasanaethau. Dylid pennu'r buddion disgwylidig a'r safonau ansawdd gofynnol ar ddechrau datblygiad y gwasanaethau a dylid eu hadolygu yn rheolaidd.

15. LLYWODRAETHU'R GWASANAETH CEFNOGI IECHYD MEDDWL CYCHWYNNOL LLEOL

Ar hyd cyswllt unigolyn â'r LPMHSS, bydd cyfrifoldeb clinigol am yr unigolyn yn cael ei rannu rhwng y gwasanaeth a'r meddyg teulu, mewn perthynas ag unigolion sydd wedi cael mynediad at y gwasanaeth trwy'r meddyg teulu.

Bydd cyfrifoldeb clinigol am unigolion sy'n cael mynediad at y LPMHSS trwy wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn parhau â'r gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd. Fodd bynnag, mae gweithwyr proffesiynol unigol yn atebol am eu penderfyniadau proffesiynol eu hunain.

Mae Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cyfeiriadau Gofal Cychwynnol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Cychwynnol) (Cymru) 2012 yn manylu ar y gofynion proffesiynol i unigolyn fod yn gymwys i gynnal asesiadau iechyd meddwl cychwynnol. Bydd y partneriaid iechyd meddwl yn sefydlu trefniadau i sicrhau eu bod yn fodlon â sgiliau a phrofiad y staff a fydd yn cynnal asesiadau iechyd meddwl. Bydd Cydweithredfa Iechyd Meddwl Gogledd Cymru yn monitro gweithlu'r LPMHSS ac yn sicrhau bod partneriaid iechyd meddwl yn cyflawni'r rôl hon yn ddigonol.

16. RHYDDID GWYBODAETH

Mae'r Partneriaid yn cydnabod eu bod yn destun i ofynion y FOIA a byddant yn cynorthwyo a chydweithio â'i gilydd (bydd unrhyw gostau'n cael eu rhannu rhwng y partneriaid) i alluogi unrhyw Bartner i gydymffurfio ag unrhyw ofynion i ddatgelu gwybodaeth.

Mae'r Partneriaid yn cydnabod eu bod yn gyrrff cyhoeddus at ddibenion FOIA 2000. Os bydd cais am wybodaeth yn cael ei gwneud dan FOIA 2000 sy'n

gofyn am ddatblygu gwybodaeth sy'n ymwneud â LPMHSS bydd y Partneriaid yn cynorthwyo a chydweithio â'i gilydd i alluogi pob Partner i gydymffurfio â'r gofynion hyn i ddatgelu gwybodaeth, lle bo angen.

17. DIOGELU DATA

Bydd pob Partner yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion hysbysu dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

18. RHANNU GWYBODAETH

Bydd y Partneriaid yn rhannu gwybodaeth am Ddefnyddwyr y Gwasanaeth i wella ansawdd gofal a galluogi gweithio integredig dan drefniadau sefydledig sydd ar waith.

Mae Adran 42 y Mesur yn caniatáu partneriaid iechyd meddwl lleol i ddarparu gwybodaeth i bartneriaid eraill a sicrhawyd trwy gyflawni ei swyddogaethau dan Ran 1 neu 3 y Mesur sy'n ymwneud ag unigolyn y mae LPMHSS yn cael eu darparu iddo/iddi, neu efallai y byddant yn cael eu darparu iddo/iddi, pan nad oes unrhyw beth yn atal y wybodaeth hon rhag cael ei datgelu dan unrhyw Fesur arall, Deddf Seneddol neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

19. PRYDERON

Mae'r partneriaid yn cydnabod bod awgrymiadau, sylwadau, digwyddiadau a chwynion yn gallu bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth wrth gynnal a gwella safonau gofal. Y nod yw dysgu o'r rhain a'u defnyddio yn bositif i wella ansawdd gofal.

Mae "pryder" yn golygu unrhyw gŵyn, hysbysiad neu ddigwyddiad diogelwch claf, neu, ac eithrio mewn perthynas â phryderon y rhoddwyd gwybod amdanynt mewn perthynas â darparwyr gofal cychwynol neu ddarparwyr annibynnol, cais am iawndal.

Bydd pob "pryder" yn cael eu trin yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr LPMHSS neu gomisiynydd unrhyw wasanaethau trydydd sector fel y nodwyd yn y cynllun hwn.

20. HYBU'R GWASANAETHAU CEFNOGI IECHYD MEDDWL CYCHWYNNOL LLEOL

Bydd cynllun cyfathrebu integredig ar gyfer y LPMHSS yn cael ei roi ar waith ar draws y partneriaid, gan gynnwys grwpiau rhanddeiliaid, defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.

Bydd y pwyntiau cyswllt cyntaf ar draws pob sefydliad sy'n bartner yn cael eu defnyddio i ddangos y ffordd at LPMHSS er mwyn i wasanaethau cychwynnol, cymunedol ac eilaidd wella mynediad ac ymwybyddiaeth.

21. TREFNIADAU AR GYFER ADOLYGU'R CYNLLUN

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bod chwarter gan Gydweithredfa Iechyd Meddwl Gogledd Cymru a bydd argymhellion ar gyfer unrhyw newid yn cael eu cyfleu i NWSSIC a BIPBC i gael cymeradwyaeth ffurfiol.

Llofnodwyr y Cynllun

Trwy lofnod, mae pob partner yn cadarnhau bod y wybodaeth yn y cynllun hwn yn gywir ynghyd â'r holl atodiadau a dogfennau atodol, yn gyfoes a chywir ar ddyddiad y llofnodi ac yn cadarnhau eu bod yn ei dderbyn ac yn barod i gydymffurfio ag ef. Os bydd fersiwn diwygiedig o'r cynllun yn cael ei gynhyrchu, ni fydd yn rhwymol nes bod yr holl bartneriaid wedi cytuno trwy lofnodi. Dan yr amgylchiadau hyn bydd y fersiwn sy'n bodoli a lofnodwyd yn llawn yn sefyll.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Sir Ynys Môn

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Gwynedd

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Sir Ddinbych

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Sir y Fflint

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Teitl

Llofnod

Dyddiad

Mesur Iechyd Meddwl Rhan 1
Rhestr o Driniaethau a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cychwynnol

Oedolion a Phobl Hŷn

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cychwynnol (yn darparu asesiad, therapïau seicolegol ar sail tystiolaeth a chynghori, gwybodaeth a chynghori i staff gofal cychwynnol, defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, bydd y trydydd sector yn darparu rhywfaint o hyn)

Gwasanaethau Asesu Iechyd Meddwl Ysbyty Cyffredinol
Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol (fel bo'n berthnasol i anghenion a aseswyd)

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cyn-filwyr (fel bo'n berthnasol i anghenion a aseswyd)

Gwasanaeth Meddyginiaeth ar Bresgripsiwn
Clinigau Cof

Plant a Phobl Ifanc

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cychwynnol (yn darparu asesiad, therapïau seicolegol ar sail tystiolaeth a chynghori, gwybodaeth a chynghori i staff gofal cychwynnol, defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr)

Hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ar gyfer gweithwyr proffesiynol
Hyfforddiant sgiliau â chefnogaeth barhaus ar gyfer gweithwyr proffesiynol
Bibliotherapi
Gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi hunan help

'Trafodaeth Gychwynnol' i bennu'r angen am wasanaeth iechyd meddwl

Cynghori a gwybodaeth
Dangos y ffordd

Gwaith grŵp cyffredinol, ac wedi'i dargedu, ar gyfer pobl ifanc

Gwaith grŵp a dargedwyd ar gyfer rhieni

Cynghori proffesiynol gan gynnwys gwaith ar y cyd lle bo'n briodol

Asesiad iechyd meddwl mewn lleoliadau gofal cychwynnol a chymunedol

Gwaith byr sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau gyda phlant, pobl ifanc a rhieni

- Hunan help dan arweiniad
- Therapi ymddygiad gwybyddol
- Therapi sy'n canolbwyntio ar atebion
- Therapi rhyngpersonol
- Rhaglenni ymddygiad
- Gwaith â theuluoedd

Rhaglenni grŵp a seiliwyd ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer pobl ifanc a rhieni

- 'Ffrindiau' (plant a phobl ifanc)
- Blynyddoedd Rhyfeddol (rhieni)

Bydd rhaglenni ychwanegol yn cael eu diffinio ar lefel leol trwy Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) e.e. dulliau cyffredinol o ymdrin â rhiantu, Tymhorau Tyfiant

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Wyn Thomas
Assistant Director, Community Partnership
Development
Betsi Cadwaladr University Health Board
Matthew House
Llys Edmund Prys
St Asaph Business Park
Denbighshire
LL17 0JA

NA/ BD

7 June 2012

Neil Ayling

01352 702500

01352 702555

E Mail Address:

Neil.j.ayling@flintshire.gov.uk

Dear Wyn,

I agreed to write to you as Chair of NWSSIC to express the views of the Social Services Directors regarding the agreement of the scheme for the Mental Health Measure.

Clearly as a professional health and social care community, we have worked hard to come to a draft scheme which we can support from a professional point of view.

Therefore I can confirm that we as Directors of Social Services will work in partnership with the Local Health Board and regional partners to fulfil our obligations under the Mental Health Measure within the terms drafted. We do this from a professional officer perspective recognising that full agreement from corporate bodies will need to be through relevant political structures which will take place in June and July.

We also recognise that the agreed scheme is a live document and will need to be amended in the light of experience and further comment from other bodies notably Welsh Government.

Clearly NWSSIC welcomes the policy commitment to improve access to Mental Health assessments and services contained in the measure. At the same time we do remain convinced of the need to monitor resource implications from the measure closely, and as a professional organisation would reserve the right to make representation for resources to Welsh Government in partnership with the Local Health Board.

I also note the suggested common outline of the report to go to political committees and NWSSIC supports this framework which will form reports to authorities which will have specific issues for the counties.

Thank you for the support with this process.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Neil Ayling', with a stylized flourish at the end.

Neil Ayling
Chair of North Wales Social Services Improvement Collaborative

Adroddiad i'r: Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Dyddiad y Cyfarfod: Iau 12fed Gorffennaf 2012

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad

Awdur yr Adroddiad: Swyddog Comisiynu a Gwerthuso, Tîm Partneriaethau a Chymunedau

Teitl: Proses dendro a dyfarnu ar gyfer cyllid Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf o Ebrill 2012

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

- 1.1. Rhoi manylion y broses dendro a dyfarnu i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau i gefnogi Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych.
- 1.2. Diweddarau'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chomisiynu Prosiectau Strategol Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cyfnod ariannol 2012-14.

2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cynnig sicrhad i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau bod proses dendro a dyfarnu agored wedi ei dilyn.
- 2.2 Hysbysu'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau o statws y broses gomisiynu ar gyfer Prosiectau Strategol Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cyfnod ariannol 2012-14, gan gynnwys manylion y darparwyr llwyddiannus hyd yma.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r prosesau a'r penderfyniadau a argymhellir gan Fwrdd Prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, fel y cadarahwyd mewn cyfarfodydd arbennig o Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, ac yn gwneud sylwadau ar hynny.

4. Manylion yr adroddiad

PROSES DENDRO

4.1. Cymorth – cyfnod pontio i Deuluoedd yn Gyntaf

Trwy Fwrdd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, penderfynodd Sir Ddinbych ddefnyddio cyfnod ariannol 2011-2012 fel blwyddyn bontio i roddi digon o rybudd i'r sawl a oedd yn derbyn cyllid Cymorth i addasu cyflwyniad eu prosiect os oedd angen, i fodloni meini prawf Teuluoedd yn Gyntaf. Gwnaed yn glir i ddarparwyr Cymorth y byddai cyllid ar gyfer eu prosiectau yn dod i ben ar 31ain Mawrth 2012.

Cytunodd y Bartneriaeth gomisiynu rhaglen newydd Teuluoedd yn Gyntaf o wasanaethau trwy ymarfer tendro agored yn defnyddio Sell2Wales

(gwefan a sefydlwyd i helpu mentrau bychain a chanolig yng Nghymru i gysylltu â chyrff sector cyhoeddus i hyrwyddo eu hunain a chael cyfleoedd tendro addas). Sir Ddinbych yw'r unig awdurdod yng Ngogledd Cymru i fabwysiadu'r dull hwn o ddyrannu cyllid, er efallai y bydd mwy yn gwneud hyn ym mlwyddyn ariannol 2013-14.

Y bwriad oedd darparu proses deg ac agored i ddyrannu'r arian; rhoi'r ddarpariaeth orau a'r gwerth gorau am arian, ac angen dangos sut y byddai'r defnyddiwr gwasanaeth yn elwa (trwy fesur perfformiad yn unol ag atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau). Mae hwn yn newid arwyddocaol o'r gorffennol, pan roedd cyllid Cymorth yn cael ei ddsbarthu trwy gyfrwng proses llawer mwy anffurfiol. Canlyniad hynny oedd tueddiad i 'dreiglo' cyllid o flwyddyn i flwyddyn, heb ailasesu llwyddiant yn llawn neu adolygu canlyniadau.

4.2. **Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf**

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob awdurdod gynhyrchu Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r ddarpariaeth arfaethedig a'r costau yn seiliedig ar ddysgu yn ystod Cyfnod Arloesi 2011-12 (mae Sir Ddinbych wedi gweithio ac yn parhau i weithio â Wrecsam a Sir y Fflint mewn consortia ar sail ranbarthol), asesiadau o angen a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

4.3. **Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf**

Sefydlodd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Fwrdd Prosiect yn cynnwys partneriaid trydydd sector i reoli Rhaglen Gomisiynu / Cynllun Wedi Prosiect (yn cynnwys tasgau e.e. Manylebau, Dogfennau Tendr, amserlenni) ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. Y canlyniad i'r Bwrdd Prosiect oedd alinio cyllid yn effeithiol gyda meini prawf y Cynllun MAWR / Teuluoedd yn Gyntaf.

4.4. **Cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer y Broses Dendro**

I alluogi darparwyr presennol i reoli'r symud trosodd, rhoddwyd cefnogaeth i'w helpu i addasu i'r meini prawf newydd a hefyd i annog darparwyr posibl eraill i ddod i mewn i'r farchnad. Cynhaliwyd cyfres o ddiwyddiadau rhannu gwybodaeth a gweithdai yn ychwanegol at gefnogaeth uniongyrchol a ariannwyd gan y Bartneriaeth, a'u cyflwyno trwy Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Roedd y gefnogaeth i ddarparwyr posibl yn cynnwys:

- Gweithdy – 'Beth yw elfen Teuluoedd yn Gyntaf Canlyniad 4 yn Sir Ddinbych – Y Cynllun Mawr a sut medrwyd chi gyfrannu tuag at ei gyflawni';
- Cyhoeddi Modelau Gwasanaeth drafft i ddarparwyr posibl;
- "Barod i Dendro" – gwasanaeth cyfeirio i gael cefnogaeth gyda chwblhau dogfennau tendro, a gwybodaeth ar y drefn;
- Cyhoeddi amserlen gaffael glir – y Broses Gomisiynu
- Gweithdy ar 'Weithio fel rhan o Gonsortiw' (h.y. cymdeithas/cynghrair), gan gynnwys datblygu cysylltiadau ar gyfer cefnogaeth, a darpar bartneriaid.
- Comisiynwyd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i ddarparu sesiynau cefnogi, annog a galluogi partneriaid i weithio

mewn consortia, bod yn wasanaeth cyfeirio, a phrynu gwasanaeth ymgynghorwyr i weithio gyda chonsortia newydd.

4.5. **Dadansoddiad o'r Broses Dendro**

Mae'r cerrig milltir a dyddiadau cyflawni i'w gweld yn **Atodiad 1 Amserlen Dendro**.

Gwybodaeth ychwanegol:-

- 4.5.1. Derbyn ac agor tendrau ar 31 Ionawr 2012 gan y Swyddog Comisiynu a Gwerthuso a Swyddog Gweinyddol
- 4.5.2. Dyrannwyd rhif i bob tendr, a ddefnyddiwyd trwy gydol y cyfnod gwerthuso (i sicrhau bod pob un yn ddi-enw yn ystod y broses dendro)
- 4.5.3. Penodwyd a chytunwyd paneli gan Fwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf i ystyried tendrau, a oedd yn cynnwys Aelod o'r Cabinet gyda chyfrifoldeb arweiniol, aelod o Fwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf, cynrychiolydd gyda gwybodaeth berthnasol, defnyddwyr gwasanaeth lle'n bosibl, ac er mwyn cael cysondeb trwy'r broses, y Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau, a'r Swyddog Comisiynu a Gwerthuso.
- 4.5.4. Cyfarfu pedwar panel ym mis Chwefror 2012 i ystyried y ceisiadau mewn meysydd gwasanaeth penodol. Cafodd y paneli eu grwpio mewn meysydd a oedd yn cysylltu'n naturiol, fel a ganlyn:

Panel 1: Gofalwyr Ifanc, Gofal Plant, Chwarae, Anabledd

Panel 2: Gwneud y Mwyaf o Incwm

Panel 3: Rhianta, Cefnogi Teuluoedd, Gwynwch Teuluoedd

Panel 4: Cefnogi Ieuencid

- 4.5.5. Cysylltwyd gyda chanolwr ar gyfer pob darparwr a ffefrir. Cafwyd 3 geirda ar gyfer pob ymgeisydd.
- 4.5.6. *Oedi a Myfyrio* – cafwyd ymarfer i edrych ar ddarparwyr a ffefrir i ystyried lle gellid cael gwerth ychwanegol trwy gryfhau cysylltiadau rhwng elfennau, adnabod unrhyw fylchau. Roedd y meysydd a nodwyd yn cynnwys marchnata a hyfforddi (lle gellid cronni cyllid gan nifer o'r ymgeiswyr i ddarparu a chyflwyno'n ganolog).
- 4.5.7. *Gwahoddiad i gyfarfod y Panel* – lle'r oedd angen esboniad ar rai agweddau o'r ceisiadau, gwahoddwyd yr ymgeiswyr i gyfarfod ag Aelodau'r Panel i fynd trwy eu cais yn fwy manwl.
- 4.5.8. *Cyfarfodydd Eglurhad a Chyn-contract* – cynhaliwyd y rhain gyda'r holl ymgeiswyr a ystyriwyd fel darparwyr a ffefrir. Cynrychiolwyd y Gwasanaethau Cyfreithiol ym mhob cyfarfod ac amlygwyd ychwanegiadau cyfreithiol i'r Contract terfynol. Rhannwyd gwybodaeth ategol contractau i sicrhau eglurder a chytundeb mewn perthynas â Diogelu, cysylltiadau â Genesis Cymru 2 a marchnata, Llywodraethu Contract, Amser arweiniol, cysylltiadau perfformiad gyda Dangosyddion Poblogaeth. Trafodwyd cadarnhad dyddiad cychwyn y prosiect hefyd.

Cadarnhaodd yr holl ddarparwyr a ffefrir ddyddiad cychwyn 1af Ebrill 2012.

4.5.9. Hysbyswyd Cadeirydd y Bartneriaeth ym mhob cyfnod allweddol y drefn.

4.5.10. Lluniwyd contractau gan y Tîm Partneriaethau a Chymunedau o fewn canllawiau Cyfreithiol a Chaffael.

PROSIECTAU STRATEGOL TEULUOEDD YN GYNTAF 2012-2014 A GOMISIYNWYD

4.6 Ynghlwm yn **Atodiad 1** mae rhestr o brosiectau strategol a symiau a ddyrannwyd, ynghyd â manylion ar statws y 2 elfen gwasanaeth nas dyrannwyd, sef Cefnogi Teuluoedd ac Anabledd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gyfrannwr allweddol i'r Cynllun Mawr "Canlyniad 4, Teuluoedd agored i niwed yn Sir Ddinbych yn cael u cefnogi i fyw bywyd rhydd rhag tlodi, lle medrent fod yn annibynnol, a ffynnu".

6. Pa ymgynghori a fu?

- Grŵp Rhanddeiliaid Teuluoedd yn Gyntaf
- Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf
- Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Hawliau Cynnar ac Ymestyn Hawliau
- Uwch Dîm Arwain
- Defnyddwyr Gwasanaeth – plant a phobl ifanc anabl
- Rhieni / Gofalwyr plant a phobl ifanc anabl

7. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

7.1. **Llithriant amserlen** – mae'r amserlen wedi bod yn dynn ond mae gweithredu methodoleg Rheoli Prosiect gan Fwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf wedi golygu bod 7 allan o 9 elfen gwasanaeth wedi cychwyn ar 1af Ebrill 2012. Cafwyd trefniadau dros dro i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth presennol nes bydd y 2 elfen arall yn eu lle.

7.2. Cynyddodd y penderfyniad i ddefnyddio **agwedd mwy ffurfiol tuag at gomisiynu** er mwyn gwella ansawdd canlyniadau, lefel y gwaith a oedd ei angen ei wneud gan gyrff yn tendro ar gyfer y Rhaglen ac efallai bod rhai grwpiau llai wedi teimlo eu bod dan anfatais. Mae risg y gall tendrwyd aflwyddiannus deimlo bod y broses dendro wedi bod yn annheg iddynt hwy.

7.3. **Lleihad yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth newydd** – oherwydd oedi cyn dyrannu darparwr ar gyfer Elfen Cefnogi'r Teulu, a gorfod trefnu darpariaeth dros dro am bris, mae'r swm sydd ar gael ar gyfer 2012-2013 wedi gostwng. Gall hyn gael effaith ar ddarparwyr posibl sydd eisiau tendro.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r:
Swyddog Comisiynu a Gwerthuso
Ffôn: 01824 706283

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf**Amserlen Tendre a Phrosiectau Strategol Teuluoedd yn Gyntaf 2012-2014 -
Comisiynwyd**

Rhif Carreg Filltir:	Carreg Filltir	Dyddiad cyflawni
1	Cyflwyno Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf i Lywodraeth Cymru	28/10/11
2	Cyfarfod 1af Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf	01/11/11
3	Ystyried proses y Panel, dyddiadau cyfarfod Paneli, cytuno'r Broses Tendre, ystyriaeth tendrau ac Aelodau'r Panel	01/11/11
4	Hysbysu bwriadau gwasanaeth i ddarparwyr posibl	06/12/11
5	Cychwyn gwaith ar fanylebau gwasanaeth	03/11/11
6	Llywodraeth Cymru yn asesu Cynllun Gweithredu TyG	11/11/11
7	Ymweliad â'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru i drafod Teuluoedd yn Gyntaf	17/11/11
8	Drafft terfynol manylebau gwasanaeth i'w cyflwyno	18/11/11
9	Manylebau gwasanaeth drafft i'w rhannu'n electronig gyda Bwrdd y Prosiect	18/11/11
10	Cyfarfod Bwrdd Prosiect (hanner diwrnod) ar fanylebau gwasanaeth	21/11/11
11	Cychwyn gwaith ar ddogfennau tendr	14/11/11
12	Cordis Bright i gwblhau manylebau gwasanaeth	25/11/11
13	Gwiriad ansawdd ar ddogfennau tendr gyda Bwrdd Prosiect TyG	13/12/11
14	Cymeradwyaeth derfynol gan Lywodraeth Cymru i Gynllun Gweithredu TyG	23/02/12
15	Partneriaeth Plant a Phobl ifanc <i>Cyfarfod Arbennig</i> Derbyn Cynllun Gweithredu terfynol TyG/Manylebau Gwasanaeth	01/12/11
16	Rhannu gwybodaeth gyda'r Uwch Dîm Arwain gan Gadeirydd y Bwrdd Prosiect	01/12/11
17	Cyfarfod Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf	13/12/11
18	Hysbysebu gwahoddiad i dendro	16/12/11- 21/12/11
19	Adroddiad Craffu Partneriaethau (Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf /	26/01/12

Atodiad 1

Rhif Carreg Filltir:	Carreg Filltir	Dyddiad cyflawni
	Meysydd Comisiynu Strategol / Amserlen Caffael)	
20	Cyfarfod Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf	12/01/12
21	Dyddiad cau derbyn tendrau (yn brydlon am 4pm)	31/01/12
22	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Diweddariad ar waith y Bwrdd Prosiect	26/01/12
23	Cyfarfod Bwrdd Rheoli Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf – dogfennau panel	03/02/12
24	Paneli Teuluoedd yn Gyntaf	W/C 06/02/12
25	Cyfarfod Bwrdd Rheoli Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf – statws Paneli TyG	16/02
26	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc <i>Cyfarfod Arbennig</i>	20/02/12
27	Cabinet	21/02/12
28	Cyfarfod Bwrdd Rheoli Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf	27/02/12
29	(a) Cyfarfod eglurhad gyda darpar bartneriaid newydd (b) Hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus	20/04/12
30	Cychwyn Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf	01/04/12
31 (a)	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc – arbennig	19/04/12
31 (b)	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	19/04/12
32	Rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus (ar yr elfennau a ddyrannwyd)	08/05/12
33	Bwrdd Prosiect TyG	14/05/12
34	Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych – Cyfarfod y Darparwyr	23/05/12
35	Trefnu i'r Panel edrych eto ar fanyleb Anabledd	01/06/12
36	Bwrdd Rheoli Prosiect Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf <i>Cyfarfod arbennig ar elfen Cefnogi'r Teulu</i>	29/06/12
37	Sefdlu Grŵp Cynllunio i Lansio Rhaglen TyG	05/07/12

Tendrau Teuluoedd yn Gyntaf 2012-2014			
Elfennau Gwasanaeth	Ymgeisydd Llwyddiannus	Arian ar gael 2012/2013	Arian ar gael 2013/2014
Chwarae (gan gynnwys darpariaeth anabledd)	Oaktree Play (Bid Consortiwm)	£ 117,378	£ 120,000
Gwneud y Mwyaf o Incwm	Hawliau Lles (Bid Consortiwm)	£ 60,000	£ 60,000
Gwynwch Teuluol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Bid Consortiwm)	£ 80,000	£ 80,000
Rhianta	Action for Children (Bid Consortiwm)	£ 130,000	£ 130,000
Gofalwyr Ifanc	Action for Children	£ 91,374	Dim
Darpariaeth Gofal Plant	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	£ 46,000	£ 46,000
Cefnogi Ieuenctid	Consortiwm Cefnogi Ieuenctid Sir Ddinbych (Bid Consortiwm)	£ 160,000	£ 160,000
CYFANSWM A DDYRANNWYD AR GYFER PROSIECTAU A GOMISIYNWYD AR 01/04/12		£ 684,752	£ 596,000

Tendrau Teuluoedd yn Gyntaf 2012-2014			
Elfennau Gwasanaeth heb eu Dyrannu	STATWS	Arian sydd ar gael 2012/2013 (swm yn destun gostyngiad oherwydd costau gwasanaethau dros dro a drefnwyd)	Arian sydd ar gael 2013/2014
Cefnogi'r Teulu	Argymhellodd cyfarfod arbennig o Fwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf ar 29/06/12 bod manyleb newydd yn cael ei chyhoeddi a bod yr elfen hon yn mynd i dendr. Mae CLG gyda HomeStart Sir Ddinbych yn bodoli i roddi cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol ac ar gyfer y cyfnod trosiannol h.y. proses atgyfeirio i'r gwasanaeth newydd/diwygiedig	£ 180,000	£ 200,000
Anabledd	Swm ar gael am ddwy flynedd yn unig heb gyfle i gael cyllid heibio Mawrth 2014. Mae'r cyllid wedi ei neilltuo i sicrhau bod gan Ddarparwyr TyG yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol i ddarparu ystod lawn o ddarpariaeth gynhwysol o fewn eu gwasanaeth. Oherwydd bylchau yn y ceisiadau am yr elfen hon, daeth Panel Anabledd i'r casgliad ar 01/06/12 y byddai darpariaeth ar gyfer 4 o'r 6 maes gwreiddiol yn y Fanyleb yn cael ei chyflwyno. Mae'r swm wedi ei ostwng oherwydd darpariaeth dros dro ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth presennol trwy Cyfle Barnado's Cymru.	£ 75,000	£ 89,989

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	12^{fed} Gorffennaf 2012
Swyddog Arweiniol:	Noddwr Arweiniol, Taith i Waith
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Rhanbarthol, Taith i Waith
Teitl:	Taith i Waith

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r prosiect Taith i Waith/New Work Connections yn cefnogi pobl sydd, trwy amrywiaeth o anafteision, yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith i mewn i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r prosiect rhanbarthol hwn yn cynnwys pedair ardal awdurdod lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd gyda Sir Ddinbych fel y Noddwr Arweiniol. Sicrhaodd y prosiect £26 miliwn dros bedair blynedd (1^{af} Mawrth 2010 tan 28^{ain} Chwefror 2014); £13.8 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) trwy raglen Gydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r prosiect wedi'i alinio â Blaenoriaeth 2, Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio'r ESF:

- Blaenoriaeth 2; cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd
 - Codi lefelau cyflogaeth a gweithgaredd economaidd, a sicrhau cyfranogiad uwch yn y farchnad lafur
- Thema 1; helpu pobl i mewn i gyflogaeth gynaliadwy
 - Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd trwy ddod â mwy o bobl i mewn i gyflogaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:
 - Weithredu polisiau marchnad lafur gweithredol a chefnogi pobl i oresgyn amrywiaeth eang o rwystrau i gyflogaeth gynaliadwy
 - Helpu i fynd i'r afael â rhwystrau penodol a wynebwr gan grwpiau dan anfantais

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynghylch y Prosiect Taith i Waith.

3. Beth yw'r Argymhellion?

I aelodau Craffu Partneriaethau ystyried:

- Cydymffurfiaeth â pholisiau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych
- Cydymffurfiaeth ag Amodau a Thelerau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)
- Trefniadau llywodraethu priodol
- Aliniad digonol â meysydd blaenoriaeth Cyngor Sir Ddinbych
- Prosesau monitro a gwerthuso a rheoli risg
- Defnydd effeithiol ac effeithlon o gyllid
- Cyflawni Targedau a Dangosyddion

- Datblygu Strategaeth Ymadael ar gyfer y Prosiect

4. Manylion yr adroddiad

Fel noddwyr y prosiect, mae Sir Ddinbych yn gyfrifol am gyflenwi'r prosiect yn unol â'r amodau a'r telerau a nodwyd yn y llythyr sêl bendith a dderbyniwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Rheolir y cydweithrediad rhanbarthol hwn gan Gytundeb Partneriaeth a arwyddwyd gan bob un o'r 4 awdurdod. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o'r cychwyn i sicrhau cydymffurfiaeth ac mae strwythurau yn eu lle'n lleol hefyd. Mae'r prosiect yn adrodd hefyd i Grŵp Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru gan sicrhau y darperir arweinyddiaeth gorfforaethol. Hyd yma mae'r prosiect wedi wynebu nifer o heriau cymhleth, mae rhai o'r prif faterion yn cynnwys:

- Recriwtio staff allweddol a sefydlu'r prosiect (*Cronfa Ddata a Dogfennaeth*)
- Cyflwyno'r Rhaglen Waith
- Cymhlethdodau'r prosesau caffael sydd eu hangen
- Ymateb i addasiadau parhaus i ofynion y prosiect

Er gwaethaf yr heriau hyn, a bu llawer ohonynt, mae'r prosiect yn parhau i fynd o nerth i nerth, er mawr glod i'r staff sydd a wnelo ag ef. Mae'u penderfyniad a'u hangerdd i'r prosiect lwyddo wedi galluogi'r prosiect i fod yn y sefyllfa gref y mae ynddi heddiw. Mae'r prosiect arloesol a hanfodol hwn yn galluogi unigolion i gyflawni eu potensial llawn. Mae yna amrediad syfrdanol o weithgareddau yn eu lle i gyfranogwyr ac mae'r prosiect yn unigryw yn gymaint â bod y cyfranogwyr yn cael eu hystyried yn unigolion a bod cefnogaeth wedi'i theilwra'n arbennig yn cael ei darparu i ddiwallu eu hanghenion, ac mae hynny wedi arwain at lwyddiannau mawr.

Mae prosiectau ESF yn cael nifer o ymweliadau archwilio gydol eu hoes ac ymhell ar ôl eu cwblhau. Mae'r timau archwilio sy'n debygol o ymweld yn cynnwys archwilwyr WEFO, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd. Gwneir Ymweliadau Noddwr Arweiniol chwarterol gan y Tîm Rhanbarthol i sicrhau cydymffurfiaeth ac i ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd. Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i weithredu'n rhanbarthol i sicrhau y cyflenwir camau allweddol y prosiect mewn pryd; wedi tarddu o'r Cynllun Busnes. Mae methodoleg gadarn yn cefnogi'r Cynllun ac yn cynnwys adrodd ar Statws, adrodd ar Eithriadau a Rheoli Risg.

Mae'r prosiect yn cael cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda Swyddogion Datblygu Prosiectau yn WEFO; perthynas weithio ragorol heb i unrhyw broblemau mawr gael eu clustnodi hyd yma. Canmolwyd prosesau caffael y prosiect gan WEFO a ofynnodd am gael eu rhannu gyda phrosiectau ESF eraill fel arfer gorau. Mae WEFO wedi gwneud sylwadau hefyd ar y cynllun monitro a gwerthuso a'r fethodoleg gan ddweud ei bod yn broses drawiadol.

Mae rhan fwyaf y prosiect Taith i Waith yn cael ei gyflenwi'n fewnol, ac eithrio'r ddarpariaeth arbenigol sydd wedi'i chaffael. Ymrwymiad penodol y mae WEFO wedi'i wneud i'r Comisiwn Ewropeaidd yw bod rhaid caffael yr HOLL hyfforddiant gan sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn cael y cyfle i dendro am gontractau cyflenwi gwasanaethau ar sail deg a thryloyw. Mae'r

prosiect yn Sir Ddinbych wedi caffael nifer o ddarparwyr i gyflenwi hyfforddiant ac addysg trwy Fframwaith Hyfforddiant ac Addysg.

Yn rhanbarthol mae'n rhaid i'r prosiect ddarparu cefnogaeth i 4,555 o unigolion a hyd yma mae'r prosiect wedi cefnogi 1573 o unigolion, y mae 962 ohonynt wedi cyflawni o leiaf un canlyniad cadarnhaol gyda rhai unigolion yn cyflawni cymaint ag 8 canlyniad cadarnhaol (*Atodiad 1 Cylchlythyr Rhanbarthol*).

Mae'r prosiect yn mynd drwy werthusiad allanol gan Wavehill Consulting; wedi'u dewis drwy broses gaffael. Mae'r gwerthusiad yn elfen dyngedfennol a bydd yn chwarae rhan annatod wrth egluro'r rhesymau y tu ôl i lwyddiannau a methiannau'r prosiect er mwyn rhannu arfer da gydag eraill a chlustnodi beth all weithio'n well y tro nesaf. Mae i'r prosiect bwyslais cryf ar ddatblygu prosesau a phrotocolau, yn anelu at lyfnhau'r amrywiaeth eang presennol o wasanaethau. Bydd mwy o gydweithrediad yn cyfrannu'n fawr at wneud arbedion effeithlonrwydd ac felly, at gynladwyedd gwasanaethau. Disgwylir y bydd mwy o gydweithrediad rhwng gofal cymdeithasol, iechyd, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau cyflogi, a chyrrff trydydd sector yn arwain at wasanaethau mwy cyfannol i'r cyfranogwyr. Dylai hyn wella effeithiolrwydd wrth gwrdd ag anghenion ac felly mae'r gwerthusiad yn anelu at ddangos yr angen i'r math hwn o gefnogaeth barhau ar ddiwedd y cyfnod cyllido.

Mae'r uchod yn ffurfio sail y Strategaeth Ymadael a gynhwysir yn y Cynllun Busnes; mae'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio'n fwy manwl ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Dim mwy o gyllid ar gael
- Parhad cyllid ESF
- Ffynonellau cyllid eraill (mewnol ac allanol)
- Ymadael Cynamserol

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r flaenoriaeth gorfforaethol o fynd i'r afael â Newid Demograffig yn cael sylw uniongyrchol gan y prosiect Taith i Waith. Yn Sir Ddinbych mae nifer cynyddol o bobl hŷn ac o bobl gydag anabledau ac mae'r prosiect yn anelu at gefnogi a chynorthwyo'r ddau grŵp poblogaeth yma i wella eu sgiliau ac, yn y pen draw, eu bywydau trwy'u cefnogi i mewn i hyfforddiant, addysg a chyflogaeth. Y nod yw cefnogi pobl i ennill annibyniaeth a rheolaeth ar eu bywydau; gan ganiatáu iddynt weithio a dysgu am gyhyd ag y dymunant a hefyd wneud cyfraniad gweithredol unwaith y maent yn ymddeol; mae'r prosiect yn unigryw yn gymaint â nad oes iddo derfyn oed uchaf.

Nod cyffredinol y prosiect Taith i Waith yw cynorthwyo 4,555 o bobl ar draws y 4 awdurdod, trwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, annog dechrau busnes a lleihau nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar ac ar fudd-daliadau, gan felly gynorthwyo blaenoriaethau corfforaethol Adfywio; lleihau amddifadedd a chynladwyedd economaidd. Mae'r prosiect yn anelu at alluogi pobl i wireddu eu potensial llawn, a fydd yn anochel yn cyfrannu at economi'r rhanbarth. Mae'r prosiect yn cyfrannu at Gynllun MAWR Sir Ddinbych yn gymaint â'i fod yn gwella siawns pobl o fod yn iach a bod â theimlad o hapusrwydd ac yn cynyddu'n uniongyrchol eu cyfleoedd o fod yn gallu fforddio cwrdd â'u hanghenion trwy ddod yn hunangynaliadwy trwy'r cymorth a ddarperir gan y prosiect.

Un o nodau Craidd y prosiect hwn yw hyrwyddo annibyniaeth ymhlith pobl gydag anghenion gofal cymdeithasol gan eu helpu i ymgysylltu â hyfforddiant a chyflogaeth, sy'n gyson â nifer o Strategaethau Llywodraeth y DU a Chymru.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Yr unig effaith y bydd y prosiect hwn yn ei gael ar wasanaethau eraill yw eu cyfannu ac ychwanegu gwerth ac o bosibl leihau dihybyddu gwasanaethau statudol yn y tymor hir.

7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?

Wrth ddatblygu'r prosiect Taith i Waith, bu ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid canlynol:

- Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, prosiectau eraill a gyllidir gan WEFO, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru, Canolfan Byd Gwaith, amrywiol Ddarparwyr Hyfforddiant, Strategaeth Dinasoedd, amryw o fudiadau'r Trydydd Sector, swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol, darparwyr Addysg Bellach, Grŵp Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae cyflwyniadau wedi'u gwneud ynghylch y prosiect mewn dwy gynhadledd fawr. Mae pob un wedi bod yn llwyr gefnogol i'r prosiect.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hwn yn brosiect rhanbarthol arwyddocaol gyda goblygiadau arian cyfatebol. Mae'r gwariant proffiledig a'r canlyniadau'n cael eu monitro'n ofalus a'u hadrodd i'r darparwyr cyllid.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Yn lleol, caiff risgiau eu clustnodi a'u sgorio gan eu tebygolrwydd a'u difrifoldeb, yna'u cofnodi a'u monitro'n rheolaidd. Mae risgiau'n cael eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Lleol a chamau sydd eu hangen i ddileu neu leihau'r risg yn cael eu penderfynu a'u gweithredu yn ôl y galw/fel y bo'n briodol. Caiff y risgiau a glustnodwyd eu cydgasglu ar y gofrestr risg ranbarthol sy'n cael ei hadrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob chwarter i'w hadolygu. Cwblheir adroddiad eithriadau ble mae risgiau COCH wedi'u clustnodi (*ddim ar y trywydd iawn a heb fod mewn rheolaeth*). Cynhwysir risgiau gweddillol yn y Lòg Risgiau sy'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae rhai o'r risgiau mawr a amlygwyd yn cynnwys effaith y dirywiad economaidd, dyblygu prosiectau ar draws y rhanbarth, effaith y Rhaglen Waith a newidiadau i'r prosiect. O ystyried hyn, mae WEFO wedi pwysleisio'r angen i'r prosiect ddangos ei fod yn gwneud popeth y gall i gefnogi pobl ar eu 'taith' i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Defnyddir yr erfyn canlyniadau Seren Gwaith i alluogi Gweithwyr Cymorth i fesur a chrynhai cyflawni 'canlyniadau meddalach'. Mae hyn wedi darparu fframwaith gwerthfawr i'r staff ac wedi galluogi darparu cefnogaeth fwy systematig, mesuradwy a chyson ar draws y rhanbarth.

10. Grym i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Rhanbarthol Taith i Waith

Ffôn: 01745 353494

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Taith i Waith

Rhifyn 4 Bwletin Diwrnod UE, 9fed Fai



Cefnogi pobl sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y Farchnad Lafur i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant



Diwrnod Ewrop

9fed Mai

Caiff ei ddathlu o fewn yr Undeb Ewropeaidd fel 'Diwrnod Schuman' neu 'Ddiwrnod Ewrop', sef ei enw mwyaf arferol – mae'r 9fed Mai yn achlysur ar-gyfer rhanbarthau ledled Ewrop, gan gynnwys Cymru, lle mae Cronfeydd Strwythurol o fudd i bobl, busnesau, cymunedau a'r amgylchedd.

Ar 9 Mai 1950, cyflwynodd Robert Schuman, Gweinidog Materion Tramor Ffrainc, araith ar ran Llywodraeth Ffrainc yn cynnig uno diwydiannau glo a dur Ffrainc a'r Almaen dan gyd-sefydliad Ewropeaidd. Ystyrir mai hyn a arweiniodd at eni'r Sefydliad Cymuned Ewropeaidd cyntaf, Cymuned Glo a Dur Ewropeaidd (ECSC) ac yn y pen draw i'r Gymuned Ewropeaidd ei hunan. Oherwydd hyn, yn Uwchgynhadledd arweinwyr yr UE ym Milan ym 1985, penderfynwyd dathlu 9 Mai fel Diwrnod Ewrop.

Ymunwch â ni i Ddathlu Diwrnod UE trwy ddarllen am ein Prosiect, Taith i Waith, a ariennir gan Gyllid Ewropeaidd, gyda diweddariadau a newyddion cyffrous am lwyddiant y prosiect hyd yma



Taith i Waith

Ein Nod

Nod prosiect **Taith i Waith**, trwy ystod o ymyraethau, yw lleihau anweithgaredd economaidd a gwella lefelau cyflogaeth ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig ar draws pedwar awdurdod lleol Ynys Môn, Conwy, Gwynedd a Sir Ddinbych.

Mae Taith i Waith yn brosiect mawr wedi ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Cydyfeiriant Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, i gefnogi'r amrywiol grwpiau sy'n wynebu anfanteision, i mewn i hyfforddiant, addysg a gwaith. Mae'r prosiect yn cefnogi'r grwpiau targed canlynol fel blaenoriaeth:

- **Pobl sy'n wynebu her arwyddocaol o ran cael gwaith, addysg a hyfforddiant**
- **Pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu eu gallu i weithio**
- **Pobl 16-18 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)**
- **Pobl ag anhwylder corfforol neu synhwyraidd**
- **Pobl ag anabledd dysgu neu anhawster dysgu**
- **Pobl ag anghenion iechyd meddwl**
- **Rhieni sengl â chyfrifoldeb gofalu unigol am blentyn/blant**
- **Pobl hŷn (50 neu drosodd)**
- **Merched yn dychwelyd i'r gwaith**
- **Pobl â chyfrifoldebau gofalu**
- **Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME)**



Mae **Taith i Waith** yn dal i dderbyn nifer fawr o atgyfeiriadau ac ar hyn o bryd yn rhoi cefnogaeth i fwy na 1000 o unigolion ar draws y pedair sir: Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

Yr hyn yr ydym yn ei gynnig.....

- **Cefnogaeth ddwys un-i-un: gweithiwr achos penodol yn rhoi cefnogaeth i unigolion i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn**
- **Cefnogaeth i chwilio am waith: technegau cyfweliad, ysgrifennu CV a Chlybiau Gwaith**
- **Sgiliau TG sylfaenol**
- **Cefnogaeth gyda phroblemau hyder a hunanbarch**
- **Helpu cael gwared o heriau a rhwystrau**
- **Cyllid ar gyfer hyfforddiant/addysg**
- **Cefnogaeth a chymorth i gyflogwyr**

Cynnydd hyd yma

Mae'r prosiect wedi cefnogi **1573** o gyfranogwyr hyd yma,

- ✓ 698 – allan o waith am hyd at 12 mis
- ✓ 875 – allan o waith am fwy na 12 mis
- ✓ 686 – merched
- ✓ 887 – dynion
- ✓ 668 – gyda chyflwr sy'n cyfyngu'r gallu i weithio neu anabledd
- ✓ 85 – gydag anhwylder synhwyraidd
- ✓ 675 – dim cymwysterau o gwbl
- ✓ 962 – wedi cael o leiaf un canlyniad cadarnhaol
- ✓ 91 – wedi mynychu lleoliad gwaith / gyfle gwirfoddoli



Canlyniadau cadarnhaol

Mae canlyniadau cadarnhaol yn gamau pwysig iawn ar daith pobl i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gallant gynnwys sgiliau meddwl megis galluoedd datrys problemau, nodweddion personol megis gwell hunanhyder, neu sgiliau ymarferol megis gwell gwerthfawrogiad o bwysigrwydd bod yn amserol yn y gwaith, ac ati.

Mae cyfanswm o 962 o'r cyfranogwyr wedi cael Canlyniad Cadarnhaol hyd yma

Mynd i'r gwaith

Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cael gwaith o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect. Mae cyflogaeth yn cynnwys hunan-gyflogaeth a gall fod yn rhan-neu'n llawn-amser. Rhaid, fodd bynnag, iddo fod yn 16 awr yr wythnos o leiaf a rhaid iddo fod yn waith gyda thâl.

Mae cyfanswm o 43 cyfranogwr wedi cael Cyflogaeth Lawn-amser hyd yma.

Addysg Bellach

Nifer y cyfranogwyr sy'n mynd i Addysg Bellach o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect. Gall addysg bellach gynnwys addysg ffurfiol academaidd neu alwedigaethol a hyfforddiant datblygu sgiliau llai ffurfiol.

Mae cyfanswm o 37 cyfranogwyr wedi mynd ymlaen i Addysg Bellach hyd yma.

Gweithgareddau Lleol



Aelod diweddaraf y staff yw Mrs Caroline Tattersal a oedd cyn hynny'n gweithio gyda mudiad sector gwirfoddol ac sydd nawr yn gweithio ar ein prosiect adfer iechyd meddwl.

Mae Ynys Môn yn cynnig ystod eang o fodiwlau y gall y cyfranogwyr gymryd rhan ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys modiwl hanes sy'n cynnwys ymweld â gwahanol safleoedd hanesyddol ar Ynys Môn megis Carchar a Llys Biwmares a Phlas Newydd. Maent hefyd yn ymweld ag Archifau Ynys Môn a chwilio trwy hen ddogfennau am wybodaeth ar y safleoedd rydym yn ymweld â hwy.

Mae modiwl cerddoriaeth sydd wedi bod yn llwyddiannus, wedi ei leoli mewn stiwdio gerdd yn Llangefni ac a redir gan grŵp o'r enw 'Bocsŵn'. Yn y sesiynau cerddoriaeth caiff cyfranogwyr ddysgu chwarae offeryn, cyfansoddi a golygu cân ac ychwanegu lleisiau hefyd os dymunant. Erbyn diwedd y modiwl mae'r cyfranogwyr yn cael recordiad CD o'u cân.

Yn ddiweddar mae Ynys Môn hefyd wedi dechrau modiwl ym Melin Llynonn a hyd yma mae'r cyfranogwyr wedi gosod graean i roddi mynediad haws i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac maent hefyd wedi bod yn plethu helyg i gryfhau rhai o'r ffensys ar y safle. Gobeithia Ynys Môn y bydd cyfranogwyr yn yr haf yn medru gwirfoddoli yn y siop a'r caffi ar y safle a helpu rhoi teithiau tywys i ymwelwyr â'r safle.

Cynhaliodd Ynys Môn eu 'Diwrnod Agored' ar 26ain Mawrth yng Nghanolfan Byron, Ynys Môn. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr a phenderfynodd nifer o'r rhai a fynychodd gofrestru ar y prosiect (mwy o wybodaeth ar dudalen 7).

Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Ynys Mon ar 01407 721959 neu Ebost:
taithiwaith@ynysmon.gov.uk



Mae gweithwyr achos yn gweithio gyda chyflogwyr ar ran eu cyfranogwyr, yn eu cynorthwyo i gael gwaith. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac mae'r prosiect wedi derbyn nifer o sylwadau cadarnhaol:

'Dim ond canmoliaeth am yr help a gefais. Rhoddodd well persbectif ar fy mhroblemau a sut rwy'n delio â nhw, a oedd wedi bod yn gosod rhwystrau yn gymdeithasol a chyda gwaith.' (anhysbys 2012)

'Rwyf wedi cael y cyfle i ddangos y medraf weithio. Rwy'n mwynhau'r gwaith ac yn tynnu 'mlaen gyda phawb. Diolch am y cyfle.' (anhysbys 2012)

Mae sesiynau galw heibio Builder Street ar ddydd Gwener hefyd wedi bod yn llwyddiannus; mae swyddi lleol yn cael eu harddangos a chefnogir y cyfranogwyr gyda gwneud ceisiadau. Mae cyfrifiadur Mynediad i'r Cyhoedd yn cael ei drefnu i ganiatáu i'r cyfranogwyr chwilio am waith a gwneud ceisiadau arlein.

Cynhaliodd Gail Selley (Rheolwr Tîm Taith i Waith) a Mike Roberts (Arweinydd Tîm Taith i Waith) stonidin wybodaeth ar ddiwrnod agored ymwybyddiaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn ddiweddar. Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Gyfnewidfa yn Hen Golwyn, wedi ei hwyluso gan Dîm Anabledd Dysgu Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn agored i'r cyhoedd. Ynghyd â thîm Taith i Waith mynychodd nifer o gyrff eraill, gan gynnwys: Gwasanaeth EPS a Chynghori Sir Ddinbych, Grŵp Options, Tîm Allgymorth ASD, Autism Initiatives UK, Ysgol Plas Bron Dyffryn, Ysgol Gogarth a Gyrfa Cymru.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch â
Chonwy ar 01492 576582 neu
Ebostio:**

newworkconnections@conwy.gov.uk

Gweithgareddau Lleol



Croeso i Reolwr Lleol newydd ei benodi Sir Ddinbych, Paul Greatbatch. Yn ychwanegol at Paul, mae Jacquie Walker, Swyddog Cydgysylltu a Monitro a Katie Jones, Gweithiwr Achos y Prosiect hefyd wedi eu recriwtio o'r newydd.

(Paul Greatbatch, Rheolwr Lleol Sir Ddinbych)

Mae Taith i Waith yn cynnig help a chefnogaeth TG yn rhad ac am ddim yn llyfrgelloedd Rhuthun, Llangollen a Dinbych i unrhyw un sy'n bodloni meini prawf y prosiect a hoffai gyngor neu gymorth i chwilio am waith, addysg bellach neu hyfforddiant.

I'r bobl hynny sy'n chwilio am waith, medrent gynnig help gyda llunio CV, llythyrau cyflwyno wrth chwilio am waith, defnyddio'r rhyngwyd i chwilio am a gwneud cais am swyddi, help gyda ffurflenni cais a sgiliau cyfweiliad. Mae Mentor TG o brosiect Taith i Waith wrth law i helpu gyda defnyddio cyfrifiaduron. Popeth rydych angen ei wybod, o ddefnyddio cyfrifiaduron am y tro cyntaf i grwydro'r rhyngwyd, i gyrsiau ECDL achrededig.

Pam na ddewch heibio i'n gweld yn:

- **Llyfrgell Llangollen bob dydd**
Mawrth rhwng 10.00am a 12.30pm
- **Llyfrgell Rhuthun bob dydd**
Gwener rhwng 10.00am a 12.30pm
- **Llyfrgell Dinbych bob dydd**
Gwener rhwng 1.30pm a 4.00pm

Mae'r prosiect hefyd ar gael mewn lleoliadau eraill ledled Sir Ddinbych.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach ar unrhyw un o weithgareddau Sir Ddinbych neu faterion eraill, cysylltwch â Taith i Waith ar 01745 360801 neu ebostio:

rhyl.communityagency@denbighshire.gov.uk



Croeso i Nia Haf Jones a benodwyd yn Swyddog Prosiect Taith i Waith yn Chwefror 2012.

Mae nifer o ddatblygiadau cyffrous ar y gweill i'r prosiect yng Ngwynedd:

- **Hyfforddiant Sylfaenol ac NVQ Lefel 1 mewn TG yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd (mae Arfon eisoes yn cynnig gwasanaethau o'r fath)**
- **Cyngor ar Fudd-daliadau/Les a Cyrsiau Llythrennedd Ariannol**
- **Pecyn Hyfforddi ar gyfer Cyflogadwyedd a fydd yn cynnwys Cymorth Cyntaf, Symud a Thrin, Glendid Bwyd, lechyd a Diogelwch, Gofal Cwsmeriaid fel bod unigolion yn meddu ar y sgiliau priodol pan fydd cyflogwyr mawr fel ASDA yn agor siop newydd ym Mangor ym mis Tachwedd 2012, ac yn medru elwa o fod mewn gwell sefyllfa i gael cyfweiliad am swydd o ganlyniad**
- **Cyrsiau Agored mewn amrywiol unedau megis TG/Sgiliau Sylfaenol a mwy ...**

Mae cyrsiau ar Reoli Dicter a Rheoli Cwsg hefyd ar y gweill. Mae'r Canolfannau Adnoddau lechyd Meddwl wedi adnabod hyn fel rhwystr i unigolion sy'n ceisio mynd yn ôl i'r gwaith nad ydynt wedi medru datrys problemau rheoli dicter a phatrymau cysgu.

Mae Gwynedd nawr wedi sefydlu perthynas waith agos gyda Chynghorwyr Canolfan Byd Gwaith a bydd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau defnydd gorau o'r adnoddau a gweithio'n agos i weld sut mae'r gefnogaeth yn datblygu.

Os ydych yn byw yng Ngwynedd ac yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, cysylltwch â Thîm Taith i Waith ar: 01286

66 679388 neu 01286 679585 neu ebostio:

TaithiWaith@gwynedd.gov.uk

Diwrnod Agored Ynys Môn



Cynhaliwyd Diwrnod Agored a Digwyddiad Gwybodaeth Ynys Môn yng Nghanolfan Byron, Mona, ar ddydd Iau 29ain Mawrth 2012. Mynychodd dros 100 o bobl ar y dydd, gan gynnwys staff o asiantaethau eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Roedd amrywiol stondinau gyda mentoriaid yn dangos pa fodiwlau maent yn eu cynnig i'r cyfranogwyr sy'n cofrestru gyda'r prosiect.

Mae ystod eang modiwlau Ynys Môn yn cefnogi cyfranogwyr i feithrin hyder a gwella sgiliau cymdeithasol; eu paratoi i fynd ymlaen i addysg, hyfforddiant a gwaith. Mae'r modiwlau yn cynnwys pysgota, hanes, cerddoriaeth, clwb clic, garddio, crefftau coed, clustogwaith a chelfyddyd a chrefftau. Cafodd pawb gyfle i siarad â'r mentoriaid i ddysgu mwy a gweld beth y mae'r cyfranogwyr presennol eisoes wedi ei gyflawni. Mae gwybodaeth bellach ar y modiwlau ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.gov.uk/taithiwaith

Roedd Gwilym St Paul, cyfranogwr sydd ar hyn o bryd yn gwneud Tystysgrif lefel 1 OCR mewn Gweinyddiaeth trwy Goleg Menai, yn un o'r cyfranogwyr a oedd yn helpu yn y dderbynfa yn ystod y digwyddiad. Meddai

"Roedd yn ddiwrnod difyr, llawn gwybodaeth. Roedd yn brysur iawn ac roedd yn dda gweld cymaint o bobl yn dod i'r digwyddiad."

Cafodd ymwelwyr y cyfle hefyd i weld DVD y prosiect, a siarad gyda chyfranogwyr a oedd yn cael eu cefnogi gan y prosiect ar hyn o bryd.

Un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd oedd standin Hyfforddiant Teithio Fforwm Anabledd Taran. Maent wedi ennill y contract hwn a byddant yn darparu detholiad o fodiwlau profiad gyrru a fydd yn cynnwys llogi efelychydd gyrru gan Blas Cybi. Mae'r efelychydd wedi ei ddodi mewn car go iawn sydd wedi ei addasu i gynnwys cyfrifiadur sy'n dangos delwedd realistig o ffyrdd sy'n symud, fel bod y cyfranogwr yn cael syniad da o brofiad gyrru tra'n dysgu. Syniad hynod yn wir.



Rhoddodd nifer o bobl gynnig ar y car ac roeddynt â diddordeb mewn dysgu gyrru trwy'r rhaglen a gynigir gan brosiect Taith i Waith. Bydd y modiwl hwn hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl sydd eisieu dysgu defnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol a rhai sydd eisieu gwella eu sgiliau gyrru.

Roedd Rhwydwaith Circles sydd wedi cael contract i ddysgu sgiliau byw'n annibynnol trwy'r prosiect hefyd yn bresennol ar y Diwrnod Agored. Mae Circles yn newydd i'r ardal a bydd yn cefnogi cyfranogwyr, yn y gymuned, i fod yn fwy annibynnol.



Gan fod y diwrnod mor llwyddiannus, byddwn yn cynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf. Diolch i bawb a fynychodd y Diwrnod Agored.

Cysylltu â Chyflogwyr

Llyfrgell Caernarfon/TALNET

Gan Carwyn Jones (Swyddog Busnes a Gyrfaoedd Taith i Waith Gwynedd)



Ar ôl trafodaethau maith gyda'r tîm am leoliadau, daeth yr ymadrodd 'dilyn eich pregeth eich hun' i'r meddwl, a lle gwell i gychwyn na Chyngor Sir Gwynedd ei hun!

Trefnais gyfarfod gyda Hywel James (prif lyfrgellydd Gwynedd) i roi cyflwyniad byr ar y prosiect a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Cymerais y cyfle i holi Hywel ynglŷn â phosibiliadau lleoliadau gwaith ynghyd â'r cyfle i fod yr adran gyntaf yng Nghyngor Gwynedd i fod yn rhan o'r prosiect.



Cytunodd Hywel bod y syniad yn un da ac roedd yn gefnogol iawn i'r math o waith rydym yn ei wneud. Cytunodd nid yn unig fod yn rhan o'r prosiect ond hefyd cytunodd ddarparu dau leoliad gwaith yn llyfrgell Caernarfon, un gyda'r cwmni llyfrau TALNET a'r llall yn y llyfrgell gyffredinol.

Cytunwyd y buaswn yn gweithio gyda mentor lleol Taith i Waith ac adnabod nifer o gyfranogwyr a fyddai'n addas ar gyfer y lleoliadau. Byddai'r staff wedyn yn dewis y CVs mwyaf addas a chynnal 'cyfweiliad anffurfiol' a rhoi taith o gwmpas yr adeilad cyn cadarnhau'r lleoliad.



Unwaith y dewiswyd y cyfranogwyr addas, lluniwyd cynllun gweithredu i weld pa sgiliau a phrofiadau roedd y cyfranogwr eisiau eu datblygu a'u cryfhau yn unol â rôl y lleoliad.

Rwyf bob amser yn awgrymu i unrhyw gyflogwr bod cyfnod prawf yn syniad doeth. Mae hyn yn mynd â pheth o'r pwysau oddi ar y cyflogwr ac fel arfer yn cymhell y cyfranogwr i wneud yn dda ac ymrwymo 100% i'r lleoliad.

Ar ôl y cyfnod prawf, bydd adolygiad arall a gall y cyflogwr wedyn ddewis ymestyn contract y cyfranogwr, neu roddi mwy o oriau iddo. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni fonitro cynnydd yr unigolion a sicrhau bod y cyflogwr a'r cyfranogwr yn fodlon gyda'r lleoliad.

(Lluniau: Gweithwyr yn Llyfrgell Caernarfon/TALNET)

Beth rydym yn ei wneud



Mae Kyle yn astudio Lefel 1 Cwrs Gweinyddiaeth Busnes yng Ngholeg y Rhyl, 3 diwrnod yr wythnos. Yn 19 oed roedd eisiau datblygu ei brofiad mewn swyddfa a fyddai'n mynd gyda'i gwrs coleg.

Mae gan Kyle nam ar ei glyw ac yn gwisgo dau gymorth clywed; ei nod yw dod yn weinyddwr wedi cymhwyso'n llawn.

Ym Mawrth 2011, cyfeiriwyd Kyle at brosiect Taith i Waith am gefnogaeth wrth adnabod lleoliad gwirfoddoli priodol a fyddai'n rhoi iddo'r sgiliau perthnasol i wella ei brofiad swyddfa.

Roedd Kyle hefyd angen cael hyder 'gwaith a chymdeithasol', sy'n rhywbeth y gall gwirfoddoli helpu gyda'i feithrin.

Roedd Taith i Waith yn medru helpu Kyle gael lleoliad gwirfoddoli am 1 diwrnod yr wythnos gyda Gofal Canser Marie Curie, Canolfan Fusnes Morfa Clwyd yn y Rhyl. Yno, mae Kyle yn helpu gyda stoc, mewnbynnu data, delio ag ebost a diweddarau'r databas gwybodaeth. Meddai Kyle ...

"Rwy'n mwynhau gweithio gyda Marie Curie. Mae'n fy helpu gyda'r cwrs coleg a hoffwn gael mwy o ddyddiau pan fydd hynny'n bosibl. Rwyf wedi bod yn mewnbynnu data, cyfrif stoc a delio ag ebost. Hoffwn ddiolch i brosiect Taith i Waith am gael y swydd gyda Marie Curie i mi."

Dywedodd Simone Williams, Rheolwr Codi Arian Cymunedol gyda Marie Curie, y Rhyl:

"Mae cael Kyle fel gwirfoddolwr wedi bod yn wych i ni. Mae pob diwrnod yn dod â rhywbeth gwahanol ac weithiau nid ydym yn cael amser i wneud pethau fel databasau, ymchwil a chofnodion sydd angen eu gwneud. Mae Kyle yn wych gan ei fod wedi dylunio cofnod syml y medrwn ei gwblhau bob dydd; mae wedi llunio taenlen i gofnodi ffurflenni noddï sy'n mynd allan ac yn dod i mewn, ac mae wedi gweithio i ddiweddarau ein hymgyrch casglu tun, a fydd yn ein caniatáu i dalu am fwy o oriau nyrsio ledled ein hardal. Mae gwirfoddolwyr fel Kyle yn amhrisiadwy i fudiadau fel Gofal Canser Marie Curie."



Glanhau er mwyn Llwyddiant



'Glanhau er mwyn Llwyddiant!' 'Cynllun Ailgylchu Swyddfa Gorwelion Gwyrdd'

Cafodd staff a defnyddwyr gwasanaeth gydnabyddiaeth yng Ngwobrau diweddar 'Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaeth Cyhoeddus' (APSE).

Denodd Gwobrau APSE fwy na 300 cais gan enwebai gyda mwy na 130 o gyrff yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cymryd rhan. Lluniwyd rhestr fer o'r cyflwyniadau gorau o bob categori ac mae cyrraedd y rhestr derfynol gyda'n henwebiad cyntaf yn mynd i'n hannog a'n helpu ni i gyd i barhau i ymgyrchu gyda'r cynllun hwn a helpu cadw swyddfeydd y Cyngor yn 'wyrdd a thaclus'.

Mae 'Cynllun Ailgylchu Swyddfa Gorwelion Gwyrdd' Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu staff i ailgylchu papur, caniau, gwydr, plastig a gwastraff bwyd yn y gwaith, tra ar yr un pryd yn cynnig profiad gwaith a chyfluoedd rhyngweithiad cymdeithasol i Dîm Casglu Gorwelion Gwyrdd, tîm o ddefnyddwyr gwasanaeth gydag anabledd dysgu sy'n ymgymryd â'r casgliadau wythnosol ar 24 o safleoedd y Cyngor. Yn y flwyddyn gyntaf, helpodd y tîm ailgylchu mwy na 32 tonn o wastraff y Cyngor! Isod mae David, sy'n teimlo'n falch iawn, un o aelodau'r prosiect ...




Yn nigwyddiad Gwobrau ABPE ym Mryste:
David Galbraith Williams – Hyfforddwr Swydd/Gweithiwr Prosiect. Kelly Bee –
Arweinydd Tîm Taith i Waith. Stewart Heath – Defnyddiwr Gwasanaeth

Gofalu am ein Hamgylchedd

Awgrymiadau'r Ddraig Werdd

Nod yr awgrymiadau a'r syniadau canlynol yw eich helpu i chwarae eich rhan dros yr amgylchedd. Weithiau, y pethau bach sy'n helpu lleihau eich effaith ar yr amgylchedd, ac sydd hefyd yn cynyddu eich mwynhad ohoni – felly medrwn oll gyfrannu tuag at 'Ffordd o Fyw sy'n Wyrddach', yn y gwaith ac yn eich cartref.



1. Bod yn fwy egnïol

- Mae bod yn egnïol am 30 munud 5 gwaith yr wythnos yn eich helpu i fod yn iachach ac yn fwy ffit. Gall hefyd helpu'r amgylchedd. Mae cerdded neu feicio yn lle mynd â'r car yn lleihau llygredd, a bydd cerdded yn eich ymgyswrtio gyda'r ardal leol. Mae llawer o grwpiau sy'n cynnig y cyfle i wneud hyn am ddim.

2. Prynu'n Lleol ac yn Dymhorol

- Meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n fyd-eang. Mae'n well i'r amgylchedd os byddwch yn prynu llysiau a ffrwythau tymhorol, lleol.
- Mae prynu'n lleol yn golygu eich bod yn cefnogi busnesau lleol a chadw arian yn yr ardal. Mae hefyd yn rhoi cyfle i chi ddysgu am farchnadoedd lleol sy'n helpu cefnogi ffermwyr a lleihau milltiroedd bwyd.
- Mae prynu'n lleol hefyd yn eich helpu i brynu'n dymhorol. Mae archfarchnadoedd yn cynnig yr holl ffrwythau a llysiau beth bynnag yw'r tymor neu o ble maent yn dod – mae'r rhain yn dod mewn awyren ac yn aml yn dod o wledydydd sy'n datblygu.
- Mae llawer o ffrwythau a llysiau tymhorol ar gael trwy'r flwyddyn yn y DU.
- Mae cynlluniau blwch llysiau yn dosbarthu cynnyrch ffres, lleol a thymhorol at eich drws.

3. Tyfu llysiau a ffrwythau eich hun

- Yn well na phrynu llysiau a ffrwythau, pam na roddwch gynnig ar eu tyfu eich hun. Yn yr ardd, mewn blwch bychan ar sil ffenestr neu ar randir.

Am wybodaeth bellach, ewch i safle mewnwyd y Ddraig Werdd, lle medrwn rannu syniadau ar sut i wella'r amgylchedd.

<http://intranet/greendragon>

Cyhoeddusrwydd

Mae Taith i Waith yn awyddus i roddi cyhoeddusrwydd i'r prosiect fel bod cymaint o bobl ag y bo modd yn medru manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Dyma sut rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect hyd yma:

- Taflenni, posteri, gwefannau
- Papurau newydd lleol
- Newyddlenni
- Mynd i ddigwyddiadau lleol ym mhob Rhanbarth
- Tudalen Facebook yn cael ei datblygu
- Mewnrwyd y Cyngor

Os ydych yn gwybod am unrhyw ddigwyddiadau y medrwn eu mynychu
Cysylltwch â ni



Os hoffech gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio, i dderbyn newyddion ar ddigwyddiadau yn y dyfodol, neu os ydych yn gwybod am unrhyw ddigwyddiadau y medrwn gymryd rhan ynddynt, cysylltwch â:

Sara Jones, Swyddog Gweinyddol Rhanbarthol

sara.jones@sirddinbych.gov.uk

01745 334339

Rydym eisiau sicrhau bod cymaint o bobl ag y bo modd yn elwa o'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig.

If you would like to find out more about the project please contact your Local Authority on:

Cyngor Sir Ynys Môn



Ffôn: 01407 721959 neu 01407 721925

Ffacs: 01407721969

Ebost:

newworkconnections@anglesey.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych



Ffôn: 01745 362166

Ffacs: 01745 360801

Ebost:

Rhyl.communityagency@denbighshire.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Ffôn: 01492 576582

Ebost:

newworkconnections@conwy.gov.uk

Cyngor Sir Gwynedd



Ffôn: 01286 679388 neu 01286 679585

Ffacs: 01286 679 338

Ebost:

TaithiWaith@gwynedd.gov.uk



Fel arall, medrwch gysylltu â'r Tîm Rheoli Rhanbarthol:

Melanie Evans, Rheolwr Rhanbarthol

melanie.evans@sirddinbych.gov.uk

01745 353494

Helen Whitear, Swyddog Cyllid Rhanbarthol

helen.whitear@sirddinbych.gov.uk

01824 712658

Sara Jones, Swyddog Gweinyddu Rhanbarthol

sara.jones@sirddinbych.gov.uk

01745 334339

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un a allai elwa o gael cefnogaeth prosiect Taith i Waith neu os hoffech eich atgyfeirio eich hun, cysylltwch â'ch prosiect Taith i Waith lleol **NAWR**



Rydym eisiau sicrhau bod cymaint o bobl ag y bo modd yn elwa o'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig.

Cysylltwch â ni nawr



Adroddiad i:	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	12 Gorffennaf 2012
Swyddog Arweiniol:	Pennaeth Tai a Datblygiad Cymunedol
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Adfywio Strategol
Teitl:	Cydweithio Rhanbarthol ar Ddatblygiad Economaidd

1. Beth yw testun yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datblygiad strategaeth i ymdrin â pherfformiad cymharol economi Gogledd Cymru mewn cymhariaeth â rhannau eraill o Gymru a'r DU, a'r broses o greu Bwrdd gan chwech awdurdod unedol y rhanbarth a fydd yn goruchwyllo'r gwaith o gynnal y strategaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw galluogi craffu cyn-benderfyniad o fanteision disgwylidig trefniadau cydweithredol ar gyfer datblygiad economaidd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Craffu yn cefnogi:

- 3.1 egwyddorion dogfen Uchelgais Economaidd - Strategaeth ar gyfer Newid fel y'i gwelir yn Atodiad 1; a
- 3.2 sefydliad Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r cyfansoddiad drafft fel y'i nodir yn Atodiad 2.

4. Manylion yr Adroddiad

Strategaeth Uchelgais Economaidd

